Depreciation - owned assets	1,447	1,050

5. TRUSTEES' REMUNERATION AND BENEFITS

There were no trustees' remuneration or other benefits for the year ended 31st March 2025 nor for the year ended 31st March 2024.

Trustees' expenses

There were no trustees' expenses paid for the year ended 31st March 2025 nor for the year ended 31st March 2024.

6. COMPARATIVES FOR THE STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES

	Unrestricted funds	Restricted funds	Total funds
	£	£	£
INCOME AND ENDOWMENTS FROM			
Donations and legacies	7,495	219,981	227,476
Other trading activities	167	-	167
Investment income	4,484	-	4,484
Other income	1,006	-	1,006
Total	13,152	219,981	233,133
EXPENDITURE ON			
Charitable activities			
General costs	(782)	154,455	153,673
Other	4,673	10,119	14,792
Total	3,891	164,574	168,465
NET INCOME	9,261	55,407	64,668

continued...

6. COMPARATIVES FOR THE STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES - continued

	Unrestricted funds £	Restricted funds £	Total funds £
RECONCILIATION OF FUNDS			
Total funds brought forward	84,188	87,663	171,851
TOTAL FUNDS CARRIED FORWARD	93,449	143,070	236,519

7. TANGIBLE FIXED ASSETS

	Fixtures and fittings £
COST	
At 1st April 2024	17,627
Additions	2,911
At 31st March 2025	20,538
DEPRECIATION	
At 1st April 2024	13,506
Charge for year	1,447
At 31st March 2025	14,953
NET BOOK VALUE	
At 31st March 2025	5,585
At 31st March 2024	4,121

8. STOCKS

	31.3.25 £	31.3.24 £
Stocks	650	650

9. DEBTORS: AMOUNTS FALLING DUE WITHIN ONE YEAR

	31.3.25 £	31.3.24 £
Other debtors	-	1,006
Prepayments	1,140	1,023
	1,140	2,029

continued...

10. CREDITORS: AMOUNTS FALLING DUE WITHIN ONE YEAR

	31.3.25	31.3.24
	£	£
Trade creditors	1,323	1,260
Social security and other taxes	-	3,391
	1,323	4,651

11. MOVEMENT IN FUNDS

	At 1.4.24	Net movement in funds	Transfers between funds	At 31.3.25
	£	£	£	£
Unrestricted funds				
General fund	93,449	6,075	(78,000)	21,524
Designated fund	-	-	78,000	78,000
	93,449	6,075	-	99,524
Restricted funds				
National Lottery Community Fund	86,065	(31,268)	-	54,797
Moondance Foundation	6,241	77	-	6,318
The Tudor Trust	10,226	16,713	-	26,939
TSRF3	2,505	(146)	-	2,359
AVOW Youth Led Grant	758	(164)	-	594
Civic Power Fund	6,700	35,624	-	42,324
Paul Hamlyn Foundation	13,053	7,460	-	20,513
Postcode Community Trust	16,643	(14,122)	-	2,521
Tudor Trust Wellbeing	879	(450)	-	429
Costa Community Grant	-	763	-	763
Lloyds Bank Foundation	-	46,513	-	46,513
Oxfam	-	9,473	-	9,473
	143,070	70,473	-	213,543
TOTAL FUNDS	236,519	76,548	-	313,067

continued...

11. MOVEMENT IN FUNDS - continued

Net movement in funds, included in the above are as follows:

	Incoming resources £	Resources expended £	Movement in funds £
Unrestricted funds			
General fund	13,618	(7,543)	6,075
Restricted funds			
National Lottery Community Fund	50,848	(82,116)	(31,268)
Moondance Foundation	-	77	77
The Tudor Trust	43,001	(26,288)	16,713
TSRF3	-	(146)	(146)
AVOW Youth Led Grant	-	(164)	(164)
Civic Power Fund	40,002	(4,378)	35,624
Paul Hamlyn Foundation	45,000	(37,540)	7,460
Postcode Community Trust	1	(14,123)	(14,122)
Tudor Trust Wellbeing	-	(450)	(450)
Costa Community Grant	1,001	(238)	763
Lloyds Bank Foundation	49,629	(3,116)	46,513
Oxfam	10,000	(527)	9,473
	239,482	(169,009)	70,473
TOTAL FUNDS	253,100	(176,552)	76,548

Comparatives for movement in funds

	At 1.4.23 £	Net movement in funds £	At 31.3.24 £
Unrestricted funds			
General fund	84,188	9,261	93,449
Restricted funds			
National Lottery Community Fund	60,626	25,818	86,444
Moondance Foundation	8,016	(1,775)	6,241
The Tudor Trust	-	9,722	9,722
TSRF3	19,021	(16,516)	2,505
AVOW Youth Led Grant	-	758	758
Civic Power Fund	-	6,700	6,700
Paul Hamlyn Foundation	-	13,151	13,151
Postcode Community Trust	-	16,670	16,670
Tudor Trust Wellbeing	-	879	879
	87,663	55,407	143,070
TOTAL FUNDS	171,851	64,668	236,519

continued...

11. MOVEMENT IN FUNDS - continued

Comparative net movement in funds, included in the above are as follows:

	Incoming resources £	Resources expended £	Movement in funds £
Unrestricted funds			
General fund	13,152	(3,891)	9,261
Restricted funds			
National Lottery Community Fund	97,981	(72,163)	25,818
Moondance Foundation	-	(1,775)	(1,775)
The Tudor Trust	44,000	(34,278)	9,722
TSRF3	-	(16,516)	(16,516)
AVOW Youth Led Grant	1,000	(242)	758
Civic Power Fund	10,000	(3,300)	6,700
Paul Hamlyn Foundation	45,000	(31,849)	13,151
Postcode Community Trust	20,000	(3,330)	16,670
Tudor Trust Wellbeing	2,000	(1,121)	879
	219,981	(164,574)	55,407
TOTAL FUNDS	233,133	(168,465)	64,668

A current year 12 months and prior year 12 months combined position is as follows:

	At 1.4.23 £	Net movement in funds £	Transfers between funds £	At 31.3.25 £
Unrestricted funds				
General fund	84,188	15,336	(78,000)	21,524
Designated fund	-	-	78,000	78,000
	84,188	15,336	-	99,524
Restricted funds				
National Lottery Community Fund	60,626	(5,450)	-	55,176
Moondance Foundation	8,016	(1,698)	-	6,318
The Tudor Trust	-	26,435	-	26,435
TSRF3	19,021	(16,662)	-	2,359
AVOW Youth Led Grant	-	594	-	594
Civic Power Fund	-	42,324	-	42,324
Paul Hamlyn Foundation	-	20,611	-	20,611
Postcode Community Trust	-	2,548	-	2,548
Tudor Trust Wellbeing	-	429	-	429
Costa Community Grant	-	763	-	763
Lloyds Bank Foundation	-	46,513	-	46,513
Oxfam	-	9,473	-	9,473
	87,663	125,880	-	213,543
TOTAL FUNDS	171,851	141,216	-	313,067

continued...

11. MOVEMENT IN FUNDS - continued

A current year 12 months and prior year 12 months combined net movement in funds, included in the above are as follows:

	Incoming resources £	Resources expended £	Movement in funds £
Unrestricted funds			
General fund	26,770	(11,434)	15,336
Restricted funds			
National Lottery Community Fund	148,829	(154,279)	(5,450)
Moondance Foundation	-	(1,698)	(1,698)
The Tudor Trust	87,001	(60,566)	26,435
TSRF3	-	(16,662)	(16,662)
AVOW Youth Led Grant	1,000	(406)	594
Civic Power Fund	50,002	(7,678)	42,324
Paul Hamlyn Foundation	90,000	(69,389)	20,611
Postcode Community Trust	20,001	(17,453)	2,548
Tudor Trust Wellbeing	2,000	(1,571)	429
Costa Community Grant	1,001	(238)	763
Lloyds Bank Foundation	49,629	(3,116)	46,513
Oxfam	10,000	(527)	9,473
	459,463	(333,583)	125,880
TOTAL FUNDS	486,233	(345,017)	141,216

The Avow Youth Led and Postcode Community Trust grants are in connection with capital assets and therefore have a balance remaining in line with the net book value of the asset.

12. RELATED PARTY DISCLOSURES

There were no related party transactions for the year ended 31st March 2025.

TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities)

Diwedd Adroddiad Saesneg / End of English Report
The following document contains the Welsh-language narrative version of TCC's Annual Report.

The English version of the Annual Report and Accounts has been formally approved and signed by the Trustees and represents the official version submitted to the Charity Commission.

The Welsh translation is provided to ensure accessibility and inclusion for Welsh-speaking members, supporters, and partners. Every effort has been made to ensure it is an accurate translation of the approved Trustees' Report.

TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities)

Cwmni cyfyngedig trwy warant

Adroddiad yr ymddiriedolwyr

Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Rhif elusen gofrestredig 1086434

Rhif cwmni 04033853

TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities)

Cwmni cyfyngedig trwy warant

Cynnwys

Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol	1
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	2 - 18

Tudalen

TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities)

Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol

Gwybodaeth Gyfeiriol a Gweinyddol

Enw'r elusen: TCC (Trefnu Cymunedol Cymru / Together Creating Communities)

Rhif cofrestru'r elusen: 1086434

Rhif cofrestru'r cwmni: 04033853

Swyddfa gofrestredig a chyfeiriad gweithredol: 37 Ffordd Melin y Brenin, Wrecsam. LL13 8NH.

Ymddiriedolwyr a Noddwr

Arglwydd Esgob Gregory Cameron	Noddwr
Mr Peter Burke	
Mr Stephen Byrne	(cyfetholwyd 8fed Awst 2024)
Miss Charlotte Cooper	(cyfetholwyd 8fed Awst 2024)
Mr Oliver Doak	(ymddiswyddodd 21ain Mai 2024)
Mr Christopher Graffius	(ymddiswyddodd 26ain Ionawr 2025)
Mrs Melissa Griffiths	penodwyd yn Gadeirydd ar 11eg Medi 2024
Mr Christopher Hall	(cyfetholwyd 9fed Ionawr 2025)
Mr Darren Hampton	
Mrs Katja Jewell	(ymddiswyddodd 13eg Mehefin 2024)
Mrs Zoe Lavery	
Mr Hugo Panayiotou	(cyfetholwyd 8fed Awst 2024) penodwyd yn Is-gadeirydd 11eg Medi 2024
Mrs Jan Thomas	(cyfetholwyd 9fed Ionawr 2025)

Ysgrifennydd y cwmni: Mrs Sue Williams

Cyfrifydd adrodd: MD Coxey a'i Gwmni, 25 Ffordd Grosvenor, Wrecsam, LL11 1BT

Bancwyr: Lloyds Bank ccc, 28 Stryt y Rhaglaw, Wrecsam, LL11 1SE.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn falch o gyflwyno eu hadroddiad a'u datganiad ariannol heb ei archwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2025.

Strwythur, Llywodraethu a Rheoli

Dogfen Lywodraethu

Mae'r sefydliad yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant, a gorfforwyd ar 14eg Gorffennaf 2000 a chofrestrwyd fel elusen 2il Mai 2001. Sefydlwyd y cwmni o dan Femorandwm Cymdeithasu a sefydlodd wrthrychau a phwerau'r cwmni elusennol, ac sy'n cael ei lywodraethu o dan ei Erthyglau Cymdeithasu. Os bydd y cwmni'n cael ei ddirwyn i ben, bydd yn ofynnol i aelodau gyfrannu swm heb fod yn fwy na £1.

Recriwtio a Phenodi Ymddiriedolwyr

Mae cyfarwyddwyr y cwmni hefyd yn ymddiriedolwyr elusen at ddibenion cyfraith elusennol. O dan ofynion y Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu, etholir yr Ymddiriedolwyr i wasanaethu am gyfnod o dair blynedd ac ar ôl hynny mae'n rhaid eu hailethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.

Ar 21ain Mai 2024 ymddiswyddodd Mr Oliver Doak o'r Bwrdd, ac ymddiswyddodd Mrs Katja Jewell ar 13eg Mehefin 2024. Estynodd ymddiriedolwyr, aelod-grwpiau a staff ddiolch enfawr i Oliver a Katja am eu holl waith.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 11eg Medi 2024, penodwyd Mrs Melissa Griffiths yn gadeirydd y bwrdd, a phenodwyd Mr Hugo Panayiotou yn is-gadeirydd.

Yn ystod y flwyddyn cyfetholodd y bwrdd bum Ymddiriedolwr newydd: Mr Stephen Byrne, Miss Charlotte Cooper, Mr Christopher Hall, Mr Hugo Panayiotou, a Mrs Jan Thomas.

Hoffai TCC ddiolch i'r Esgob Gregory Cameron, Esgob Llanelwy, sy'n gwasanaethu fel noddwr TCC.

Llywodraethu Ymddiriedolwyr: Sicrhau Atebolrwydd a Chyfiawnder Cymdeithasol

Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr TCC yn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau bod y sefydliad yn parhau i gyd-fynd â'i amcanion elusennol, gan yrru cyfiawnder cymdeithasol a threfnu cymunedol ymlaen ledled Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am oruchwyliaeth ariannol, diogelu a llywodraethu strategol, gan sicrhau bod pob gweithgaredd yn darparu budd cyhoeddus clir ac yn cydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau.

Bob blwyddyn, mae Ymddiriedolwyr yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o brif risgiau, gan gynnwys pryderon o ran ariann, gweithredu a diogelu, gan ddefnyddio fframwaith cofrestr risg â strwythur. Mae hyn yn sicrhau bod TCC yn parhau i fod yn atebol, yn dryloyw ac yn wydn yn ei genhadaeth i fynd i'r afael ag anghyfiawnder cymdeithasol.

Er mwyn cynnal llywodraethu effeithiol, mae Ymddiriedolwyr yn cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd strategol, trafodaethau grŵp ar faterion, a gweithredoedd dan arweiniad y gymuned, gan sicrhau llif dwyffordd o wybodaeth rhwng yr arweinwyr a threfnwyr ar lawr gwlad. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn is-grwpiau fel personél a chyllid, gan ddarparu argymhellion sy'n llunio'r broses wneud penderfyniadau ac adeiladu cynghreiriau.

Mae TCC yn gobeithio cyflwyno 'The Governance App' gan y Cyfeiriadur Newid Cymdeithasol (DSC) i gryfhau arweinyddiaeth a llywodraethu, gan ddarparu'r offer i Ymddiriedolwyr adolygu llywodraethu ar y cyd, asesu anghenion sefydliadol, ac olrhain cynnydd. Bydd hyn yn sicrhau bod Ymddiriedolwyr yn parhau i fod yn gymwys, yn wybodus ac wedi ymgysylltu, gan gyfrannu at arweinyddiaeth gref, atebolrwydd, a gwneud penderfyniadau effeithiol.

Trwy ymgorffori egwyddorion trefnu cymunedol mewn llywodraethu, mae Ymddiriedolwyr yn sicrhau bod pŵer yn parhau â'r bobl sy'n gyrru newid ar lawr gwlad. Mae eu harweinyddiaeth yn sicrhau bod TCC yn parhau i ymladd dros gyfiawnder cymdeithasol, yn adeiladu pŵer ar y cyd, ac yn cynnal ei genhadaeth elusennol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

Diogelu ac Arweinyddiaeth Foesegol

Mae diogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth o fewn TCC, â'r holl bolisïau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n flynyddol i sicrhau cydymffurfiaeth ag ymarferion gorau a safonau rheoleiddio. Mae Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyd-Reolwr yn meddu ar Ardystiad Hyfforddiant Diogelu Lefel 3, sy'n darparu'r arbenigedd iddynt oruchwylio mesurau diogelu'n effeithiol.

Fel cynghrair trefnu cymunedol, mae TCC yn cydnabod pwysigrwydd trin profiadau byw â gofal, yn enwedig mewn meysydd sensitif o waith ac ymgysylltu ag ieuenctid. Mae ein fframwaith diogelu wedi esblygu i gynnwys canllawiau penodol ar gefnogi pobl ifanc mewn lleoliadau cyhoeddus yn hytrach na phreifat, gan sicrhau eu bod yn cael eu diogelu wrth gymryd rhan mewn mannau gweithredu, arwain a gwneud penderfyniadau.

Er mwyn cynnal dinasyddiaeth weithredol mewn arenau oedolion, mae TCC wedi cyflwyno ffiniau ar gyfer lles, gan sicrhau bod arweinwyr ifanc sy'n ymgysylltu â llunwyr penderfyniadau ac unigolion mewn swyddi â phŵer yn cael yr offer i lywio'r mannau hyn yn ddiogel ac yn hyderus.

Strwythur y Sefydliad

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod trawsnewidiol i TCC, yn dilyn penodi Sue Williams a Ruth Marshall fel Cyd-reolwyr ym mis Mawrth 2024, gan gynnwys ailstrwythuro mewnol a hyfforddiant cynhwysfawr. Roedd penderfyniad y Bwrdd Ymddiriedolwyr i ddyrchafu'n fewnol yn golygu bod y Cyd-Reolwyr wedi cyfrannu dealltwriaeth ddofn o TCC a'r tîm, sydd wedi gwella cynhyrchiant a chyflawniad ein gwaith yn sylweddol. Rydym wedi ymgymryd â goruchwyliaeth reolaidd i gefnogi a datblygu ein staff yn barhaus.

Yn ogystal, rydym wedi ailstrwythuro ein cyfarfodydd tîm i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau y gellir eu gweithredu. Mae'r fformat newydd hwn yn sicrhau bod pob cyfarfod yn ymroddedig i gyflawni nodau prosiect a gwella atebolrwydd, a thrwy hynny wella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd.

Llywodraethu Cydweithredol: Cryfhau Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Mae strwythur arweinyddiaeth TCC wedi'i adeiladu ar gydweithrediad rhwng rheolwyr, Cyd-Reolwyr, a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, gan sicrhau llywodraethu cryf, goruchwyliaeth ariannol, a llunio penderfyniadau strategol. Mae'r Cyd-Reolwyr yn gweithio'n agos ag Ymddiriedolwyr i gynnal tryloywder, alinio blaenoriaethau sefydliadol, a sicrhau bod gweithgareddau TCC yn parhau i wasanaethu'r gymuned yn effeithiol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn chwarae rôl allweddol wrth gynnal cenhadaeth TCC, gan sicrhau bod yr holl weithredu'n bodloni gofynion cyfreithiol ac yn cadw at ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd i'r cyhoedd. Y tu hwnt i lywodraethu, mae Ymddiriedolwyr yn cynnal goruchwyliaeth ariannol, yn llunio penderfyniadau strategol, ac yn diogelu uniondeb gwaith TCC.

Mae Ymddiriedolwyr yn cymryd rhan mewn is-grwpiau fel personél a chyllid, gan ddarparu argymhellion i'r bwrdd llawn wrth gynnal llinellau cyfathrebu clir â'r tîm rheoli. Mae rhai Ymddiriedolwyr hefyd yn mynychu cyfarfodydd Strategaeth misol, gan gryfhau'r cysylltiad rhwng Ymddiriedolwyr a thimau trefnu, gan feithrin llif dwyffordd o wybodaeth i sicrhau aliniad ar draws lefelau arweinyddiaeth.

Mae'r dull cydweithredol hwn o weithredu'n gwarantu bod TCC yn parhau i fod yn atebol, yn dryloyw, ac yn gymwys i yrru newid cymdeithasol parhaol, ag Ymddiriedolwyr a Chyd-Reolwyr yn gweithio â'i gilydd i gynnal a thyfu'r gynghrair.

Roedd y tîm staff yn cynnwys:

Cyd-reolwr - Gweithrediadau a Chyllid, Mrs Sue Williams
Cyd-reolwr - Rhaglenni a Phartneriaethau, ac Arweinydd Trefnu Ieuenctid a Chymunedol, Ms Ruth Marshall
Trefnydd Digidol a Chymunedol, Dr Stephen Kenyon-Owen

Trefnydd cymunedol, Mr David Hughes
Trefnydd cymunedol, Ms Bobbi Cockcroft (ymddiswyddodd ym mis Rhagfyr 2024

Amcanion Elusennol a Budd y Cyhoedd

Mae amcanion elusennol TCC yn arwain ei waith, gan ddiffinio pwrpas craidd y sefydliad a sicrhau aliniad â gofynion y Comisiwn Elusennau. Mae'r amcanion hyn yn siapio pob gweithgaredd, gan sicrhau bod TCC yn parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol trwy drefnu cymunedol, ac adeiladu pŵer ar lawr gwlad ar draws Gogledd Ddwyrain Cymru.

Yn ei amcanion elusennol, mae TCC wedi ymrwymo i ddarparu budd i'r cyhoedd, gan sicrhau bod ei waith yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau, trwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau systemig, grymuso arweinwyr ifanc, a chryfhau ymgysylltiad dinesig. Mae Ymddiriedolwyr yn adolygu yn rheolaidd, ac yn asesu, a yw pob menter ac ymgyrch yn aros yn driw i genhadaeth sefydlu TCC, gan gynnal tryloywder, atebolrwydd a llywodraethu moesegol.

Trwy ymgorffori egwyddorion trefnu cymunedol mewn llywodraethu, mae TCC yn sicrhau bod ei ymdrechion o fudd uniongyrchol i'r rheiny y mae anghyfiawnderau cymdeithasol yn effeithiol arnynt, wrth barhau i gydymffurfio â chyfraith elusennau. Mae'n gweithio i ddatblygu gallu a sgiliau cymunedau sydd o dan anfantais gymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a'i gororau, gan eu galluogi i adnabod eu hanghenion, eu helpu i ddiwallu eu hanghenion, a chymryd rhan yn llawnach mewn cymdeithas.

- hyrwyddo, er budd y cyhoedd, unrhyw ddibenion elusennol ac yn benodol dibenion elusennol sy'n gysylltiedig â:
- hyrwyddo cyfleoedd addysgol a hyfforddiant â phwyslais arbennig ar ddarparu mynediad at gyfleoedd o'r fath i bobl sydd, o ganlyniad i anfantais gymdeithasol ac economaidd, fel arall yn methu â chael mynediad. Hefyd ar feithrin egwyddorion dinasyddiaeth dda a hyrwyddo dealltwriaeth weithredol o'r gyfraith, gwleidyddiaeth, cymdeithas, crefydd, moesau, masnach, diwydiant, y celfyddydau, ecoleg, a phynciau eraill i'r graddau eu bod yn ffafriol i ddinasyddiaeth dda.
- hyrwyddo addysg y cyhoedd ym mhob mater sy'n ymwneud â'r amgylchedd, ei gadwraeth, ei warchodaeth a phynciau sy'n gysylltiedig, ac annog y defnydd o ymarfer o'r fath.
- adfywio trefol neu wledig mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd
- hyrwyddo datblygiad personol trwy annog a galluogi pobl i feithrin y sgiliau sydd eu hangen i gymryd rhan weithredol mewn bywyd dinesig
- diogelu, gwella a chadw'r amgylchedd
- lleddfu tlodi
- darparu cyfleusterau iechyd cyhoeddus a gofal plant

- hyrwyddo diogelwch y cyhoedd ac atal troseddu.

Nod allweddol TCC yw meithrin gallu, datblygu unigolion a'u sefydliadau sy'n gallu gweithredu'n effeithiol ar eu gwerthoedd er lles cyffredin trwy eu cyfranogiad mewn bywyd dinesig. Fel y grŵp trefnu cymunedol hynaf yn y DU, mae TCC yn parhau i arloesi ffordd newydd o ganiatáu i bobl gael llais yn eu dyfodol eu hunain.
Mae TCC yn hyrwyddo ei ddibenion elusennol er budd y cyhoedd trwy gyflawni'r amcanion uchod trwy hyfforddi aelodau ac eraill, a rhoi'r adnoddau iddynt gymryd rhan lawn yn eu cymunedau ac felly goresgyn yr anfanteision cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu hwynebu. Yna mae TCC yn gweithio ochr yn ochr â phobl, gan eu hyfforddi ar waith, wrth iddynt ddiwallu anghenion eu cymunedau trwy weithio ar faterion sy'n effeithio arnynt hwy a'r gymuned ehangach.

Diolch i'n Cynghrair, Ymddiriedolwyr, Cyfeillion a Phartneriaid

Mae llwyddiant TCC yn bosibl oherwydd ymroddiad, cyllid a chydweithrediad rhwydwaith amrywiol o ysgogwyr newid.

Rydym yn diolch yn ddiffuant i'r rheiny sydd wedi cefnogi TCC, gan gynnwys:

- Ymddiriedolwyr, aelodau'r gynghrair, a gwirfoddolwyr sy'n parhau i roi eu hamser a'u egni i drefnu cymunedol.
- Sefydliadau cydweithredol gan gynnwys City of Sanctuary, a The Social Change Nest.
- Mae gwerthfawrogiad TCC ar gyfer CPF yn ddwfn fel partner hanfodol wrth adeiladu pŵer, cryfhau rhwydweithiau, a gyrru gweithredu ar y cyd. Mae eu cefnogaeth wedi bod yn drawsnewidiol, gan sicrhau bod mudiadau llawr gwlad yn ffynnu a bod cymunedau'n arwain newid parhaol.
- Mae TCC yn ddiolchgar iawn i Sefydliad Paul Hamlyn am gryfhau, trefnu dan arweiniad ieuenctid, a chefnogi staff a rheolwyr trwy rwydwaith a hyfforddiant TFLN. Mae eu hymrwymiad i ddatblygu arweinyddiaeth wedi grymuso gweithredwyr ifanc ac arweinwyr sefydliadol i adeiladu pŵer, gyrru newid, a siapio dyfodol cyfiawnder cymdeithasol.
- Mae TCC yn ddiolchgar iawn i Oxfam am ariannu pad lansio sydd wedi grymuso menywod â chyfrifoldebau gofalu i drefnu, adeiladu rhwydweithiau, ac eirioli dros newid. Mae eu cefnogaeth wedi bod yn drawsnewidiol wrth gryfhau arweinyddiaeth ar lawr gwlad.
- Mae Sefydliad Banc Lloyds Cymru a Lloegr yn ariannu Cydweithredu Tlodi Wrecsam (WPAC), cydweithrediad rhwng TCC, Cyngor ar Bopeth Wrecsam, a Banc Bwyd Wrecsam.

- Diolch i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am bum mlynedd o gefnogaeth, gan ein helpu i dyfu a chryfhau trefnu ar lawr gwlad yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.
- I Ymddiriedolaeth Tudor am ei chefnogaeth ddiwyro wrth gryfhau trefnu ar lawr gwlad a gweithredu dan arweiniad y gymuned. Mae eu hymrwymiad i ddarparu adnoddau i gymunedau wedi bod yn allweddol wrth adeiladu pŵer, ehangu rhwydweithiau, a gyrru newid parhaol.
- Gweithgor Cyfiawnder Ariannol – Canolfan FDF ar gyfer Byw'n Annibynnol, Partneriaeth Parc Caia, Tîm Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST), Canolfan Cymorth Integredig Gwlad Pwyl (PISC), We are Plas Madoc, Housing Justice Cymru, Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff, Uno'r Undeb (Cymuned), UareUK, Swyddog Ymgysylltu Esgobaeth Llanelwy, Cymuned Affricanaidd Wrecsam, Iechyd a Chyfiawnder (CEM Berwyn), Sefydliad Enfys, Caniad, Advance Brighter Futures, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW)
- Mae TCC yn parhau i fod yn rhan o'r Rhwydwaith Trefnu Cymunedol Ewropeaidd (ECON). Mae ECON yn cynnig hyfforddiant a mentora, sgiliau addysgu ac yn helpu trefnwyr cymunedol i ddatblygu ymarfer strategol.
- Hoffai'r bwrdd ddiolch i Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru Llanelwy hefyd, am gyfraniad yr Esgob Gregory Cameron yn ei rôl fel noddwr TCC.

Aelodaeth TCC

Ymhlith yr aelodau mae sefydliadau sy'n cefnogi amcanion yr elusen. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd 40 o grwpiau yn aelodau.

Bydd ein haelod-grwpiau sy'n aelodau bob amser yn siapio tirwedd y gwaith y mae TCC yn ei wneud; mae'n bwysig bod trefnwyr yn gwirio, asesu a gwerthuso eu gwaith yn gyson i sicrhau bod hyfforddiant ac ymgyrchoedd yn parhau i fod yn ddilys, parchus a pherthnasol i anghenion ein cymuned. Mae TCC wedi ymrwymo i ddatblygu ein perthynas ag aelodau, ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gael sgyrsiau â grwpiau amrywiol am y materion sy'n effeithio ar eu cymunedau a pherthnasedd trefnu cymunedol wrth ymateb i'r rheini.

Ehangu Aelodaeth ar gyfer Mwy o Bŵer Cymunedol

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae TCC wedi cymryd rhan mewn sgyrsiau helaeth ledled Gogledd Ddwyrain Cymru, gan gydnabod nad oedd ffordd ffurfiol o gymryd rhan ar gael i lawer o unigolion sy'n angerddol am gyfiawnder cymdeithasol. Mewn ymateb, fe wnaethom gyflwyno aelodaeth unigol, gan sicrhau mynediad ehangach i drefnu, ymgyrchu a llunio penderfyniadau.

Er mwyn cael gwared ar rwystrau ariannol, fe wnaethom hefyd gynnig rhaglen nawdd, gan sicrhau bod sefydliadau yn gallu parhau i fod yn rhan o TCC heb straen ariannol.

Yn dilyn ymgynghoriadau cymunedol, cymeradwyodd ein Bwrdd Ymddiriedolwyr y cynnig, gan osod y sylfaen ar gyfer aelodaeth hyblyg, cyfleoedd hyfforddi, a llwybrau newydd ar gyfer cyfranogiad. Ein blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod yw tyfu ein sylfaen aelodaeth, yn enwedig ehangu yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

Cyllid

Derbyniodd TCC ymrwymiadau ariannu oddi wrth Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Tudor, Sefydliad Paul Hamlyn, Cronfa Bŵer Dinesig, Sefydliad Banc Lloyds Cymru a Lloegr, Ymddiriedolaeth Gymunedol Cod Post, Costa ac Oxfam ac mae'r rhain wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac wedi darparu parhad. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r cyllidwyr hyn am eu cefnogaeth a'u perthnasau parhaus â TCC.

Mae TCC hefyd yn ddiolchgar iawn i Chwiorydd La Sante Union yn Wrecsam am eu cefnogaeth barhaus mewn nwyddau, sef darparu swyddfeydd ac ystafell gyfarfod. Gwerth hyn yw tua £8,750 y flwyddyn ac mae'n ein galluogi i gadw ein costau gweithredu mor isel â phosibl.
Yn ogystal, mae gwaith Ymddiriedolwyr ac arweinwyr wedi ychwanegu'n aruthrol at y gefnogaeth mewn nwyddau.

Yn ystod y flwyddyn mae rhaglen cefnogwyr misol TCC wedi codi £3,702. Roedd hyn yn gyfanswm o tua £4,407 ar ôl hawlio Cymorth Rhodd. Hoffai'r Ymddiriedolwyr ddiolch yn arbennig i'r unigolion sy'n rhan o raglen cefnogwyr TCC, ac annog unrhyw un arall sy'n ystyried ymuno a gwneud cyfraniad rheolaidd i TCC i wneud hynny. Mae tâl aelodaeth yn parhau i fod yn elfen hanfodol o'n cyllid, gan godi £3,401 eleni.

Mae arianwyr yn aml yn gofyn am dystiolaeth o weithgareddau codi arian sefydliad ei hun, felly mae'r arian a godir hefyd yn hynod ddefnyddiol wrth ymgeisio am grantiau mwy.

Hyfforddiant – Trefnu ar gyfer Effaith

Mae hyfforddiant trefnu cymunedol TCC yn darparu'r sgiliau, yr hyder a'r strategaethau i unigolion arwain mudiadau llawr gwlad a gyrru newid cymdeithasol. Trwy weithdai rhyngweithiol, mentora, a chyfarfodydd strategol, rydym yn darparu offer ymarferol ar gyfer adeiladu pŵer, ymgysylltu â llunwyr penderfyniadau, a chynnull cymunedau. Mae ein modiwlau hyfforddiant digidol yn ehangu mynediad ymhellach, gan sicrhau bod trefnu yn parhau i fod yn gynhwysol, yn addasadwy ac yn effeithiol.

Mae grymuso cymunedau yn dibynnu ar adeiladu sgiliau a datblygu arweinyddiaeth. Mae hyfforddiant TCC yn darparu'r wybodaeth a'r hyder i unigolion drefnu, eirioli a gweithredu ar faterion cyfiawnder cymdeithasol.

Mae TCC hefyd wedi ailwampio ei ddarpariaeth hyfforddiant, gan feithrin ymgysylltiad creadigol trwy wefan newydd a modiwlau hyfforddiant ar-lein, sy'n cwmpasu:

- Cyflwyniad i Drefnu Cymunedol
- Trefnu Digidol
- Crefft Ymgyrchu
- Diogelu a Lles

Trwy weithdai, mentora, cyfarfodydd strategol, a gweithredu creadigol, mae TCC yn sicrhau bod hyfforddiant yn parhau i fod yn hygyrch, yn effeithiol ac yn addasadwy i anghenion cymunedau.

Chwyddo Newid: Offer Digidol ar gyfer Gweithredu ar y Cyd

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein cynghrair wedi cryfhau ei gallu i yrru newid trwy hunangynhaliaeth ddigidol a grymuso cyfryngau. Trwy fuddsoddi mewn camera ac offer recordio sain newydd, ynghyd â meddalwedd golygu proffesiynol, rydym wedi rhoi'r cyfarpar i'n hunain i greu fideos ymgyrchu a hyfforddi o ansawdd uchel - gan ddileu dibyniaeth ar ddarparwyr allanol costus. Mae'r datblygiad hwn wedi gwella ein gallu i gyfathrebu, hyfforddi a chwyddo lleisiau'r rheiny sy'n ymwneud â threfnu ar lawr gwlad.
Yn ogystal, rydym wedi lansio podlediad 'the Community Power Podcast', llwyfan lle mae aelodau ein cynghrair yn rhannu eu profiadau, eu brwydrau a'u buddugoliaethau. Mae'r penodau'n cynnwys cyfweliadau ag Ymddiriedolwyr TCC, grwpiau ieuenctid, a thrafodaethau ar effaith trefnu ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae trefnu effeithiol yn gofyn am weledigaeth, hygyrchedd a rheoli'r naratif. Yn hanesyddol, mae mudiadau cymunedol wedi dibynnu ar gyfryngau allanol neu strwythurau traddodiadol cyfyngedig i ddogfennu eu gwaith. Trwy ddatblygu capasiti digidol mewnol, mae ein cynghrair yn sicrhau bod ein straeon yn cael eu hadrodd gennym ni, drosom ni, gan adlewyrchu gwir brofiadau'r rheiny sy'n ymwneud â meithrin pŵer ac ysgogi newid. Ar ben hynny, mae'r podlediad a'r adnoddau hyfforddi yn sefydlu dysgu ac ymgysylltu parhaus, gan helpu cymunedau i rannu gwybodaeth yn ogystal â dylanwadu ar lunwyr penderfyniadau yn strategol. Mae'r gallu i gynhyrchu a lledaenu cyfryngau yn gyflym yn cryfhau ymreolaeth sefydliadol, gan wneud ein hymgyrchoedd yn fwy ystwyth, ymatebol ac effeithiol.

Trwy fuddsoddi mewn hyfforddiant, technoleg a phartneriaethau cydweithredol, rydym wedi llwyddo i ymgorffori grymuso digidol yn ein fframwaith trefnu. Ymhlith y camau ymarferol mae hyfforddi timau ar offer cynhyrchu cyfryngau, sefydlu partneriaethau strategol, fel ein sesiwn Holi ac Ateb â Matt Hildreth, Cyfarwyddwr Gweithredol RuralOrganizing a RuralProgress, a chefnogi

datblygiad arweinyddiaeth ieuenctid, fel y gwelir yn y cyfweliad â Clare Dixon, cyn Bennaeth Gweithrediadau America Ladin a'r Caribî ar gyfer CAFOD. Bu TCC yn gweithio'n agos ag Arweinwyr Ifanc Eglwys y Santes Fair, Wrecsam, i lunio strwythur y cyfweliad, wrth hefyd yn cysylltu â CAFOD i drefnu'r sesiwn.

Trwy ymgorffori hyfforddiant digidol, ac adrodd straeon, yn ein gwaith trefnu craidd, rydym yn cryfhau ein pŵer ar y cyd, gan sicrhau bod ein cynghrair yn parhau i fod yn rym hunangynhaliol ar gyfer newid.

Gweithgareddau ac Effaith

Mae aelodau cynghrair TCC wedi neilltuo oriau di-ri i wirfoddoli, ymchwilio a chodi ymwybyddiaeth, gan gryfhau ein heffaith ar y cyd, ond nid ydym wedi gweithredu ar ein pen ein hunain. Cyflawnwyd yr holl lwyddiannau hyn trwy weithio â sefydliadau, grwpiau ac unigolion eraill yn yr ardal. Mae cydweithio wedi bod wrth wraidd ein cynnydd, gan gryfhau ein gallu i ymgysylltu'n effeithiol a gyrru newid ystyrlon. Mae ein dylanwad wedi ymestyn ymhellach trwy weithredoedd ar ymgyrchoedd, cymryd rhan mewn gweminarau, digwyddiadau rhwydweithio, sesiynau dysgu a rennir, a chyfarfodydd atebolrwydd.

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn heriol i lawer o sefydliadau, gan gynnwys y trydydd sector, ond maent hefyd wedi arwain at gyfleoedd - yn benodol o ran ffyrdd newydd o ymgysylltu a galluogi deialog effeithiol â'r cymunedau o'n cwmpas.
Gan ymestyn ein hymdrechion ymgysylltu digidol hyd yn oed ymhellach, trwy gydol 2023, rydym wedi mynd ati i wella ein gallu allgymorth digidol. Mae hyn yn cynnwys datblygu gwefan newydd, ac offer hyfforddi a dysgu cysylltiedig, sydd wedi'u dylunio i gefnogi twf sefydliadol a dyfnhau cysylltiadau cymunedol. Trwy integreiddio'r datblygiadau hyn â'n hymdrechion ymgynghori parhaus, rydym wedi sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed wrth feithrin cynhwysiant, cydweithredu ac ymgysylltu parhaus. O ystyried y gefnogaeth gref i fwy o gyfranogiad, gofynnwn i'r bwrdd ystyried cyflwyno aelodaeth unigol fel modd o rymuso ein rhwydwaith ymhellach, ac ehangu cyfranogiad ystyrlon

Effaith ac Ymgysylltu: Cryfhau Ein Dylanwad

Mae adeiladu pŵer o fewn cymunedau yn gofyn am ymgysylltiad strategol, llunio penderfyniadau ar y cyd, a hyfforddiant ystyrlon. Mae TCC yn sicrhau bod pob cam a gymerir yn cyfrannu at newid hirdymor, gan roi'r offer i unigolion a grwpiau drefnu, eirioli a dylanwadu ar y rheiny sy'n llunio penderfyniadau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae TCC wedi cyflawni cerrig milltir sylweddol o ran hyfforddiant, trefnu ac allgymorth, gan gynnwys:

- 100+ awr o hyfforddiant wedi'i ddarparu i dros 240 o bobl, yn cwmpasu trefnu cymunedol, datblygu arweinyddiaeth, grymuso ieuenctid, ac ymarferion cynhwysiant.
- Dros 400 awr o lunio penderfyniadau ar y cyd, dysgu, a gweithredu y mae cynghrair yn ei yrru wedi sicrhau bod ymgyrchoedd, strategaethau ac ymdrechion eiriolaeth yn parhau i fod yn wirioneddol dan arweiniad cymunedol. Mae'r ymgysylltiad parhaus hwn yn adlewyrchu ymroddiad ein haelodau a'n partneriaid, gan feithrin cydweithrediad dyfnach a chanlyniadau effeithiol.
- Ymgysylltu â 700+ o unigolion newydd, gan gynnwys aelod-grwpiau, sefydliadau sy'n gynghreiriaid, a llunwyr penderfyniadau gwleidyddol o bob rhan o'r sbectrwm, gan atgyfnerthu rôl TCC fel catalydd ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol a chydweithredu.

Mae TCC yn parhau i adeiladu pŵer trwy:

- Ehangu cyfleoedd hyfforddi i ddarparu sgiliau trefnu ac offer eirioli i gymunedau.
- Hwyluso cyfarfodydd strategol, ymchwil i faterion, a gweithredoedd ymgyrchu i sicrhau momentwm parhaus.

Cryfhau partneriaethau ac ehangu ein dylanwad, gan sicrhau bod lleisiau o bob sector - trefnwyr ar lawr gwlad, llunwyr polisi, a chyllidwyr - yn gweithio ar y cyd tuag at newid.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae TCC wedi llwyddo i gynnal ac ehangu ei effaith yn sylweddol, gan sicrhau bod hyfforddiant, trefnu a meithrin perthnasau yn trosi i weithredu trawsnewidiol.

Yr Hyn Rydyn Ni Wedi Bod yn Ei Adeiladu

Cyfarfodydd Atebolrwydd 2024

Dechreuodd paratoadau ar gyfer Cyfarfodydd Atebolrwydd TCC ym mis Mawrth 2024 â thrafodaethau un-i-un ag arweinwyr cymunedol blaenorol. Hyrwyddwyd y cyfarfodydd hyn yn eang i ennyn diddordeb trefnwyr newydd. Er nad oedd yr etholiad cyffredinol wedi'i gyhoeddi eto, roedd disgwyl iddo ddigwydd yn Hydref 2024, oherwydd y dyddiad hwyraf posibl oedd Ionawr 2025. Fe wnaeth newidiadau sylweddol i ffiniau ledled Cymru leihau etholaethau o ddeugain i deuddeg ar hugain, gan ysgogi sesiynau hyfforddi a gwybodaeth i aelod-grwpiau. Roedd pecynnau gwybodaeth yn manylu ar yr addasiadau hyn a'u heffaith.

Cyhoeddwyd ar Fai 22ain y cynhelir yr etholiad ar Orffennaf 4ydd. Mewn ymateb, cynhaliodd trefnwyr cymunedol sesiynau democratiaeth ar rolau ASau, ailstrwythuro

ffiniau, a phwrpas y Cyfarfodydd Atebolrwydd. Roedd y sesiynau hyn, wedi'u hintegreiddio mewn Cyfarfodydd Strategaeth TCC, yn ymgysylltu â grwpiau a oedd yn ymweld a phobl ifanc mewn ysgolion a sefydliadau ieuenctid. Datblygwyd wyth cwestiwn allweddol, gan gynnwys dau gan bobl ifanc, yn mynd i'r afael â thargedau newid hinsawdd, blaenoriaethau ymgeiswyr, dibyniaeth ar fanciau bwyd, prosesu ceisiadau ffoaduriaid, pleidleisio yn 16 oed, yr argyfwng costau byw, a'r ymgyrch Dim Dysgwyr Llwglyd.

Oherwydd rhybudd byr yr etholiad, symudwyd y cyfarfodydd ar-lein. Cydweithiodd aelodau-grwpiau ar sgriptiau, datblygu cwestiynau, cynnwys y Gymraeg, a chyd-gadeirio. Cysylltwyd â thri-deg-dau o ymgeiswyr ar draws pum etholaeth newydd, â saith ar hugain yn cadarnhau cyfranogiad. Rhoddodd yr holl ymgeiswyr a fynychodd y cyfarfodydd sicrwydd i TCC y byddent yn gweithio â'r sefydliad pe baent yn cael eu hethol yn Aelodau Seneddol ar gyfer eu hetholaethau, gan danlinellu arwyddocâd mentrau dan arweiniad y gymuned wrth lunio polisïau a chynrychiolaeth.

Gwaith Cyfiawnder Ariannol

Sefydlwyd y Gweithgor Cyfiawnder Ariannol (FJWG) yn dilyn Uwchgynhadledd Costau Byw a drefnodd TCC y gwnaeth We Are Plas Madoc ei chynnal yn 2022. Ei rôl yw:-

a) Casglu a dogfennu heriau a phrofiadau byw'r rheiny y mae tlodi a chostau byw yn effeithio arnynt.
b) Nodi heriau a rhwystrau a ariannol sy'n wynebu cymunedau yn Wrecsam.
c) Datblygu argymhellion ar gyfer WPAC i helpu i ddylanwadu ar ddeiliaid pŵer a llunwyr penderfyniadau lleol, â'r nod o wella cyfiawnder ariannol ledled Wrecsam.

Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Ariannol yn grŵp sy'n ehangu'n barhaus sy'n cynnwys pedair ar bymtheg o gymunedau ar lawr gwlad, a sefydliadau lleol, a fydd yn parhau i ddarparu data a phrofiadau byw i Gydweithredu Tlodi Wrecsam i ddylanwadu ar ddeiliaid pŵer a llunwyr penderfyniadau wrth ddatblygu Strategaeth Trechu Tlodi ar gyfer Wrecsam.

Uwchgynhadledd Trechu Tlodi

Cydweithredu Tlodi Wrecsam (WPAC) a'r Gweithgor Cyfiawnder Ariannol (FJWG) a drefnodd yr Uwchgynhadledd - tynnodd y digwyddiad sylw at ddata, gwybodaeth fewnol a phrofiadau byw y rheiny yn Wrecsam y mae tlodi a chostau byw yn effeithio arnynt. Rhannwyd y rhain â deiliaid pŵer a llunwyr penderfyniadau yn Wrecsam, gan gynnwys swyddogion ac Aelodau Arweiniol Cyngor Wrecsam, Aelod Seneddol Wrecsam, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Wrecsam a Sir y Fflint, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Nod yr Uwchgynhadledd oedd hyrwyddo gwaith y WPAC a rhannu profiadau byw'r rheiny mewn tlodi ac argyfwng, yn ogystal â sicrhau addewidion gan lunwyr penderfyniadau a deiliaid pŵer i weithio mewn partneriaeth â'r mudiad Cydweithredu.

Cyhoeddir adroddiad y digwyddiad cyn bo hir a bydd yn amlinellu'r astudiaethau achos a'r profiadau byw y tynnwyd sylw atynt yn yr Uwchgynhadledd, yn nodi themâu cyffredin, ac yn gwneud argymhellion ar gyfer meysydd ffocws wrth ddatblygu Strategaeth Trechu Tlodi gynhwysfawr ar gyfer Wrecsam.

Adeiladu Pŵer: Cariad Teg a Threfnu Menywod

Mae TCC wedi bod yn trefnu ac yn adeiladu pŵer trwy Cariad Teg, mudiad ar gyfer menywod â chyfrifoldebau gofalu, gan sicrhau bod eu lleisiau'n llunio polisi, eiriolaeth a gweithredu ar lawr gwlad.

Gyda chefnogaeth Oxfam, rydym wedi creu mannau i fenywod drefnu, rhannu profiadau, a gyrru newid systemig. Trwy sgyrsiau dan arweiniad y gymuned, ymchwil ac ymgyrchu, mae Cariad Teg yn cryfhau rhwydweithiau ac yn sicrhau bod gwaith gofal yn cael ei gydnabod, ei werthfawrogi ac yn ganolog i ymdrechion cyfiawnder cymdeithasol.

Mae'r fenter hon yn dilyn y fframwaith trefnu cymunedol, gan sicrhau bod menywod yn arwain y mudiad, yn adeiladu perthnasoedd, ac yn gweithredu ar y materion pwysicaf. Trwy ddatblygu arweinyddiaeth, tyfu cynghreiriau, ac ymgysylltu â llunwyr penderfyniadau, mae Cariad Teg yn troi syniadau yn weithredoedd ac yn sicrhau bod trefnu gan fenywod yn parhau i fod wrth wraidd gwaith adeiladu mudiadau TCC

Trefnu ar gyfer Hygyrchedd

Llwybr Arfordir Sir y Fflint

Arweiniodd TCC (Trefnu Cymunedol Cymru), a'i aelod-grwpiau, yr ymgyrch dros gael gwared ar rwystrau ar hyd Llwybr Arfordir Sir y Fflint. Nod y fenter hon oedd sicrhau hygyrchedd i bawb, yn enwedig defnyddwyr cadair olwyn a'r rheiny sydd â phramiau dwbl. Er gwaethaf gwrthwynebiad cychwynnol gan Gyngor Sir y Fflint, enillodd yr ymgyrch fomentwm â chefnogaeth sefydliadau lleol a chenedlaethol, yn ogystal â ffigurau gwleidyddol.

Amlygodd ymchwil helaeth fod y polisi rhwystrau'n groes i gynlluniau ac amcanion cydraddoldeb amrywiol. Cynhaliodd y grŵp ymgyrchu, gan gynnwys sefydliadau lleol a chenedlaethol, gyfarfodydd rheolaidd i strategeiddio a rhannu profiadau. Chwaraeodd y cyfryngau cymdeithasol rôl hanfodol wrth gofnodi a rhannu profiadau byw unigolion roedd y rhwystrau'n effeithio arnynt, a helpodd i gasglu cefnogaeth a sylw eang gan lunwyr polisi.

Arweiniodd ymdrechion yr ymgyrch at Ddiwrnod Gweithredu, er bod hwn wedi cael ei ohirio, arweiniodd at Gyngor Sir y Fflint yn cytuno i gael gwared ar y rhwystrau. Mae'r broses o'u tynnu wedi dechrau, ac mae'r grŵp ymgyrchu yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau hygyrchedd llawn. Mae'r astudiaeth achos hon yn tanlinellu pŵer gweithredu ar y cyd a threfnu cymunedol wrth yrru newid cymdeithasol a sicrhau hygyrchedd i bawb.

Hygyrchedd Traethau Sir Ddinbych

Mae TCC wedi bod yn gweithio ag aelod-grwpiau i nodi deiliaid pŵer o fewn Cyngor Sir Ddinbych i ymgyrchu dros osod llwybrau pren ar draethau Sir Ddinbych. Anfonwyd gohebiaeth i'r awdurdod lleol ac mae cyfarfodydd â swyddogion yn cael eu trefnu ar hyn o bryd.

Toiledau Changing Places

Mae'r ymgyrch Toiledau Changing Places wedi bod yn fenter hirdymor yn TCC. Dros y 30 mis diwethaf, mae'r ymgyrch wedi cyflawni sawl buddugoliaeth nodedig. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi'i gyfyngu'n sylweddol oherwydd cyfyngiadau ariannol ar lefel Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru. Yn ddiweddar, mae'r ymgyrch wedi ailddechrau cysylltiad ag archfarchnadoedd mawr yn yr ardal i archwilio gosod cyfleusterau Changing Places ar eu safle. Ar ôl dwy flynedd o ymgyrchu, a cheisiadau dro ar ôl tro am amserlen ar gyfer Toiled Changing Places Toilet parc manwerthu mawr yn Sir y Fflint (ac yn dilyn sawl dechrau ffug), mae'n ymddangos bellach y gallai hyn ddwyn ffrwyth yn fuan, ar ôl derbyn newyddion cadarnhaol gan Reolwr y Ganolfan Manwerthu.

Gweithredu Iechyd Meddwl: Trefnu ar gyfer Newid

Gweithredu Iechyd Meddwl dan Arweiniad y Gymuned

Yn TCC, credwn fod newid ystyrlon yn dechrau â chydweithrediad a gweledigaeth a rennir ar gyfer cymdeithas iachach a mwy tosturiol. Yn unol â'n hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a lles cymunedol, rydym wedi dyfnhau ein hymgysylltiad â mentrau iechyd meddwl ledled Gogledd Cymru.

Adeiladu Partneriaethau ar gyfer Effaith ar Iechyd Meddwl

Eleni, ffurfiodd TCC bartneriaeth ag Advance Brighter Futures (ABF), elusen iechyd meddwl flaenllaw sydd wedi ymrwymo i rymuso unigolion a chymunedau trwy raglenni cymorth a hyfforddiant arloesol. Mae aelodaeth ABF â TCC yn gam sylweddol ymlaen yn ein hymdrechion ar y cyd i fynd i'r afael â heriau iechyd meddwl ar lawr gwlad.

Yn dilyn egwyddorion trefnu cymunedol, rydym yn cefnogi aelod-grwpiau i gynnal ymchwil, codi ymwybyddiaeth ac ehangu rhwydweithiau mewn perthynas â materion iechyd meddwl. Trwy ein partneriaeth ag ABF a chymryd rhan yn Ymgyrch 'Baton of Hope 2025', rydym yn ymhelaethu ar ymdrechion dan arweiniad y gymuned i atal hunanladdiad a gwella cymorth iechyd meddwl. Fel menter atal hunanladdiad cydgysylltiedig fwyaf y DU, mae'r 'Baton of Hope' yn dwyn sefydliadau ac arweinwyr lleol ynghyd i godi ymwybyddiaeth a gyrru gweithredu ystyrlon, gan atgyfnerthu ymrwymiad TCC i sicrhau bod pob bywyd yn bwysig.

Mae ein cyfranogiad mewn cyfarfodydd Atal Hunanladdiad a fforymau iechyd meddwl yn sicrhau bod lleisiau lleol yn dylanwadu ar bolisi a llunio penderfyniadau. Trwy feithrin partneriaethau strategol a gweithredu ar y cyd, mae TCC yn galluogi cymunedau i drefnu, eirioli a llunio datrysiadau hirdymor i heriau iechyd meddwl, gan sicrhau bod pŵer yn parhau â'r bobl yr effeithir arnynt fwyaf.

Adeiladu Pŵer Ieuenctid: Arweinyddiaeth, Eiriolaeth a Gweithredu

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae arweinwyr ifanc TCC wedi bod yn llunio ymgyrchoedd, yn ymgysylltu â llunwyr polisi, ac yn adeiladu pŵer cymunedol.

Mae TCC wedi ymrwymo i ddarparu'r offer, yr hyder a'r gwytnwch i weithredwyr ifanc arwain newid effeithiol. Trwy fframwaith trefnu cymunedol, mae ysgogwyr newid ifanc yn dysgu sut i adeiladu pŵer ar y cyd, llywio mannau eiriolaeth, ac ymgysylltu â llunwyr penderfyniadau'n effeithiol. Mae ein dull o ymdrin â diogelu yn sicrhau bod ganddynt ffiniau ar gyfer lles, gan gefnogi eu twf fel arweinwyr mewn arenâu oedolion wrth gynnal eu diogelwch a'u huniondeb. Trwy feithrin gwytnwch, meithrin sgiliau, a chefnogaeth dan arweiniad cymheiriaid, mae TCC yn sicrhau y gall trefnwyr ifanc arwain mudiadau, sbarduno newid, a llunio dyfodol cyfiawnder cymdeithasol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

Hwyluso a Hyfforddi Grwpiau Ieuenctid

Mae'r hyfforddiant yn hygyrch ac yn addasadwy, wedi'i gyflwyno trwy gynulliadau, sesiynau ABGI, a gweithdai ar gyfer aelod-grwpiau a grwpiau ysgol. Mae sesiynau'n cyfuno trafodaethau rhyngweithiol, dysgu ar sail gemau, a phrofiadau byw, gan sicrhau bod pobl ifanc yn ennill sgiliau ymarferol mewn trefnu, eiriolaeth ac arweinyddiaeth.
Mae aelodau hefyd yn derbyn adnoddau am ddim i gefnogi gwaith ieuenctid, â deunyddiau dan arweiniad a mentora i addysgwyr. Mae rôl y Trefnydd Ieuenctid yn darparu cefnogaeth strwythuredig, gan gynnig hyfforddiant, hwyluso a mentora i weithredwyr ifanc trwy gydol eu gwaith â materion a'u hymgyrchoedd

Mae TCC yn cynnal polisïau diogelu llym, gan sicrhau bod pob ymgysylltiad ag ieuenctid yn cyd-fynd â safonau amddiffyn plant ac egwyddorion dinasyddiaeth weithredol. Mae'r dull hwn yn gwarantu y gall arweinwyr ifanc drefnu, eirioli ac adeiladu pŵer yn ddiogel ac yn effeithiol.

Beth Mae Arweinwyr Ifanc Wedi Bod Yn Gweithio Arno

Mae trefnwyr ieuenctid TCC - plant a phobl ifanc - yn cymryd rhan weithredol ym mhob cyfarfod TCC, prosesau llunio penderfyniadau, ac ymgyrchoedd parhaus, gan sicrhau bod eu lleisiau yn siapio'r mudiad. Maent yn cymryd rhan mewn gwaith cyfiawnder ariannol, yn cyfrannu at drafodaethau ar anghydraddoldeb economaidd a newid polisi, ac yn neilltuo amser i wirfoddoli, trefnu cymunedol, a hyfforddiant dinasyddion gweithredol.

- Ymwybyddiaeth CAFOD – Mae grŵp ieuenctid yn codi ymwybyddiaeth o ymgyrch heddwch byd-eang CAFOD, gan greu blog a phodlediad sy'n cynnwys cyfweliad â chynrychiolydd CAFOD i hwyluso dysgu dan arweiniad cymheiriaid.
- Gweithredu ar Hinsawdd – Mae trefnwyr ifanc yn gweithio i addysgu eu cymunedau ar gynaliadwyedd, gan ymgorffori ymarferion sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd yn eu cynulleidfaoedd a'u mannau lleol.
- Grŵp Ieuenctid ar Waith (YIA) - Fel aelod-grŵp cyfiawnder cymdeithasol sy'n hunan-drefnu, mae YIA yn cymryd rhan weithredol mewn ymgyrchoedd, eiriolaeth ac adeiladu mudiadau, gan sicrhau bod pobl ifanc yn arwain ac yn llunio eu gweithredu eu hunain.
- Grwpiau Ysgol – Gyda'r tymor newydd, mae aelodau ifanc wedi ymuno â grŵp cinio St. Joseph, gan gymryd rhan weithredol mewn hyfforddiant, adeiladu hyder, a datblygu ymgyrchoedd fel rhan o'u taith drefnu cymunedol.
- Gwaith Cyfiawnder Ariannol - Mae arweinwyr ifanc yn cymryd rhan weithredol ym mentrau cyfiawnder ariannol TCC, gan sicrhau yr eir i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd trwy eiriolaeth, ymgysylltu â pholisïau, a gweithredu ar lawr gwlad.

- Mae'r ymgyrch #DimDysgwyrLlwglyd yn parhau, ag ymgyrchwyr ieuenctid yn parhau i fonitro dyled prydau ysgol a thlodi plant, gan sicrhau bod eu gwaith yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol.

Trwy fentora, diogelu a hyfforddiant, mae arweinwyr ifanc yn cynnal cyfarfodydd, yn ymgysylltu â llunwyr penderfyniadau, ac yn arwain ymdrechion eiriolaeth, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a gweithredir arnynt.

Adolygiad Ariannol

Prif Ffynonellau Ariannu

Grantiau oedd prif ffynhonnell ariannu TCC yn 2024-2025. Rydym wedi derbyn arian oddi wrth:
Cronfa Grym Dinesig
Cronfa Gymunedol Costa
Sefydliad Banc Lloyds Cymru a Lloegr
Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
Oxfam
Sefydliad Paul Hamlyn
Ymddiriedolaeth Gymunedol Cod Post
Ymddiriedolaeth Tudor

Mae'r grantiau'n ychwanegol at y taliadau aelodaeth blynyddol y mae aelod-grwpiau TCC yn eu talu, y rhaglen gefnogwyr, a chodi arian.

Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Mae gan yr Ymddiriedolwyr bolisi o ddal swm sy'n cyfateb i rhwng chwech a deuddeg mis o wariant anghyfyngedig mewn cronfeydd wrth gefn rhydd, er mwyn diogelu parhad gwaith craidd TCC. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, roedd gan yr elusen gyfwerth â thua 6 mis o wariant anghyfyngedig mewn cronfeydd wrth gefn rhydd.

Polisi Buddsoddi

Mae Erthyglau Memorandwm TCC yn awdurdodi adneuo neu fuddsoddi arian nad oes ei angen ar unwaith at ei ddiben. Felly, agorwyd cyfrif cadw Cronfa Buddsoddi Swyddogol Elusennau (COIF) ym mis Mai 2008.

Cynlluniau ar gyfer Cyfnodau'r Dyfodol

Bydd ymddiriedolwr newydd sy'n cynrychioli gwasanaethau iechyd meddwl yn ymuno â'r Bwrdd ym mis Mehefin 2025, gan sicrhau bod ystod amrywiol o arbenigedd a safbwyntiau yn parhau i lunio ein harweinyddiaeth.

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ar 5ed Mehefin ac wedi'i arwyddo ar eu rhan:



Mrs Melissa Griffiths (Cadeirydd)

TCC (TREFNU CYMUNEDOL CYMRU/TOGETHER CREATING COMMUNITIES)

England & Wales - Charity number 1086434

Accounts

TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities)
A company limited by guarantee

Trustees' report and financial statements
Year ended 31st March 2024

Registered charity number 1086434
Company number 04033853

TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities)

A company limited by guarantee

Financial Statements for the Year Ended 31st March 2024

Contents **Page**

Legal and Administrative Information	1
Report of the Trustees	18
Accountants' Report to the Trustees	19
Statement of Financial Activities	20
Balance Sheet	21-22
Notes forming part of the financial statements	23-29

TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities) Legal and Administrative Information

Reference and Administrative Information

Charity name: TCC (Trefnu Cymunedol Cymru / Together Creating Communities)

Charity registration number: 1086434

Company registration number: 04033853

Registered office and operational address: 37 Kingsmills Road, Wrexham. LL13 8NH.

Trustees & Patron

Lord Bishop Gregory Cameron	Patron
Mr Peter Burke	
Rev Anna Jane Evans	(resigned 5th July 2023)
Mr Oliver Doak	
Mr Christopher Graffius	
Mrs Melissa Griffiths	Co-chair from 5th July 2023
Mr Darren Hampton	
Mrs Katja Jewell	Chair from 5th July 2023
Mrs Zoe Lavery	
Venerable Christopher Potter	(Chair, resigned 5th July 2023)

Company secretary: Mrs Sue Williams

Reporting accountant: MD Coxey & Co, 25 Grosvenor Road, Wrexham, LL11 1BT

Bankers: Lloyds Bank plc, 28 Regent Street, Wrexham. LL11 1SE.

The Trustees are pleased to present their report and unaudited financial statement for the year ended 31st March 2024.

Structure, Governance, and Management

Governing Document

The organisation is a charitable company limited by guarantee, incorporated on 14th July 2000 and registered as a charity 2nd May 2001. The company was established under a Memorandum of Association which established the objects and powers of the charitable company and is governed under its Articles of Association. In the event of the company being wound up members are required to contribute an amount not exceeding £1.

Recruitment and Appointment of Trustees

The directors of the company are also charity trustees for the purpose of charity law. Under the requirements of the Memorandum and Articles of Association the trustees are elected to serve for a period of three years after which they must be re-elected at the next Annual General Meeting.

At the Annual General Meeting on 5th July 2023, Rev Anna Jane Evans and Venerable Chris Potter stepped down from the board at the end of their three-year terms. Trustees, member groups, and staff extended an enormous thank you to Anna Jane and Chris for all their hard work. TCC would also like to thank Bishop Gregory Cameron, Bishop of St Asaph, who serves as TCC's patron.

Liabilities are recognised as expenditure as soon as there is a legal or constructive obligation committing the charity to that expenditure, it is probable that a transfer of economic benefits will be required in settlement and the amount of the obligation can be measured reliably. Expenditure is accounted for on an accruals basis and has been classified under headings that aggregate all cost related to the category. Where costs cannot be directly attributed to particular headings they have been allocated to activities on a basis consistent with the use of resources.

Tangible fixed assets
Depreciation is provided at the following annual rates in order to write off each asset over its estimated useful life.

Stocks
Stocks are valued at the lower of cost and net realisable value, after making due allowance for obsolete and slow moving items.

Taxation
The charity is exempt from corporation tax on its charitable activities.

Fund accounting
Unrestricted funds can be used in accordance with the charitable objectives at the discretion of the trustees.

Restricted funds can only be used for particular restricted purposes within the objects of the charity. Restrictions arise when specified by the donor or when funds are raised for particular restricted purposes.

Further explanation of the nature and purpose of each fund is included in the notes to the financial statements.

2. OTHER TRADING ACTIVITIES

	31.3.24	31.3.23
	£	£
Fundraising events	167	347
Education and training income	-	184
	167	531

3. INVESTMENT INCOME

	31.3.24	31.3.23
	£	£
Interest on cash deposits	4,484	1,130

4. NET INCOME/(EXPENDITURE)

Net income/(expenditure) is stated after charging/(crediting):

	31.3.24	31.3.23
	£	£
Depreciation - owned assets	1,050	1,035

5. TRUSTEES' REMUNERATION AND BENEFITS

There were no trustees' remuneration or other benefits for the year ended 31st March 2024 nor for the year ended 31st March 2023.

Trustees' expenses

There were no trustees' expenses paid for the year ended 31st March 2024 nor for the year ended 31st March 2023.

6. COMPARATIVES FOR THE STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES

	Unrestricted fund	Restricted funds	Total funds
	£	£	£
INCOME AND ENDOWMENTS FROM			
Donations and legacies	10,491	138,387	148,878
Other trading activities	531	-	531
Investment income	1,130	-	1,130
Other income	1,067	-	1,067
Total	13,219	138,387	151,606
EXPENDITURE ON			
Charitable activities			
General costs	2,778	125,276	128,054
Other	5,437	2,969	8,406
Total	8,215	128,245	136,460
NET INCOME	5,004	10,142	15,146
Transfers between funds	(807)	807	-
Net movement in funds	4,197	10,949	15,146
RECONCILIATION OF FUNDS			
Total funds brought forward	79,989	76,716	156,705

6. COMPARATIVES FOR THE STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES - continued

	Unrestricted fund £	Restricted funds £	Total funds £
TOTAL FUNDS CARRIED FORWARD	84,186	87,665	171,851

7. TANGIBLE FIXED ASSETS

	Fixtures and fittings £
COST	
At 1st April 2023	14,111
Additions	3,516
At 31st March 2024	17,627
DEPRECIATION	
At 1st April 2023	12,456
Charge for year	1,050
At 31st March 2024	13,506
NET BOOK VALUE	
At 31st March 2024	4,121
At 31st March 2023	1,655

8. STOCKS

	31.3.24 £	31.3.23 £
Stocks	650	650

9. DEBTORS: AMOUNTS FALLING DUE WITHIN ONE YEAR

	31.3.24 £	31.3.23 £
Other debtors	1,006	-
Prepayments	1,023	945
	2,029	945

10. CREDITORS: AMOUNTS FALLING DUE WITHIN ONE YEAR

	31.3.24	31.3.23
	£	£
Trade creditors	1,260	1,200
Social security and other taxes	3,391	1,211
	4,651	2,411

11. MOVEMENT IN FUNDS

	At 1.4.23	Net movement in funds	At 31.3.24
	£	£	£
Unrestricted funds			
General fund	84,188	9,261	93,449
Restricted funds			
National Lottery Community Fund	60,626	25,818	86,444
Moondance Foundation	8,016	(1,775)	6,241
The Tudor Trust	-	9,722	9,722
TSRF3	19,021	(16,516)	2,505
AVOW Youth Led Grant	-	758	758
Civic Power Fund	-	6,700	6,700
Paul Hamlyn Foundation	-	13,151	13,151
Postcode Community Trust	-	16,670	16,670
Tudor Trust Wellbeing	-	879	879
	87,663	55,407	143,070
TOTAL FUNDS	171,851	64,668	236,519

Net movement in funds, included in the above are as follows:

	Incoming resources	Resources expended	Movement in funds
	£	£	£
Unrestricted funds			
General fund	13,152	(3,891)	9,261
Restricted funds			
National Lottery Community Fund	97,981	(72,163)	25,818
Moondance Foundation	-	(1,775)	(1,775)
The Tudor Trust	44,000	(34,278)	9,722
TSRF3	-	(16,516)	(16,516)
AVOW Youth Led Grant	1,000	(242)	758
Civic Power Fund	10,000	(3,300)	6,700
Paul Hamlyn Foundation	45,000	(31,849)	13,151
Postcode Community Trust	20,000	(3,330)	16,670
Tudor Trust Wellbeing	2,000	(1,121)	879
	219,981	(164,574)	55,407
TOTAL FUNDS	233,133	(168,465)	64,668

11. MOVEMENT IN FUNDS - continued

Comparatives for movement in funds

	At 1.4.22 £	Net movement in funds £	Transfers between funds £	At 31.3.23 £
Unrestricted funds				
General fund	79,989	5,006	(807)	84,188
Restricted funds				
National Lottery Community Fund	33,012	27,614	-	60,626
Act for Change Fund	19,704	(20,511)	807	-
Moondance Foundation	24,000	(15,984)	-	8,016
TSRF3	-	19,021	-	19,021
	76,716	10,140	807	87,663
TOTAL FUNDS	156,705	15,146	-	171,851

Comparative net movement in funds, included in the above are as follows:

	Incoming resources £	Resources expended £	Movement in funds £
Unrestricted funds			
General fund	13,219	(8,213)	5,006
Restricted funds			
National Lottery Community Fund	92,773	(65,159)	27,614
Act for Change Fund	-	(20,511)	(20,511)
Moondance Foundation	1	(15,985)	(15,984)
TSRF3	45,613	(26,592)	19,021
	138,387	(128,247)	10,140
TOTAL FUNDS	151,606	(136,460)	15,146

11. MOVEMENT IN FUNDS - continued

A current year 12 months and prior year 12 months combined position is as follows:

	At 1.4.22 £	Net movement in funds £	Transfers between funds £	At 31.3.24 £
Unrestricted funds				
General fund	79,989	14,267	(807)	93,449
Restricted funds				
National Lottery Community Fund	33,012	53,432	-	86,444
Act for Change Fund	19,704	(20,511)	807	-
Moondance Foundation	24,000	(17,759)	-	6,241
The Tudor Trust	-	9,722	-	9,722
TSRF3	-	2,505	-	2,505
AVOW Youth Led Grant	-	758	-	758
Civic Power Fund	-	6,700	-	6,700
Paul Hamlyn Foundation	-	13,151	-	13,151
Postcode Community Trust	-	16,670	-	16,670
Tudor Trust Wellbeing	-	879	-	879
	76,716	65,547	807	143,070
TOTAL FUNDS	156,705	79,814	-	236,519

A current year 12 months and prior year 12 months combined net movement in funds, included in the above are as follows:

	Incoming resources £	Resources expended £	Movement in funds £
Unrestricted funds			
General fund	26,371	(12,104)	14,267
Restricted funds			
National Lottery Community Fund	190,754	(137,322)	53,432
Act for Change Fund	-	(20,511)	(20,511)
Moondance Foundation	1	(17,760)	(17,759)
The Tudor Trust	44,000	(34,278)	9,722
TSRF3	45,613	(43,108)	2,505
AVOW Youth Led Grant	1,000	(242)	758
Civic Power Fund	10,000	(3,300)	6,700
Paul Hamlyn Foundation	45,000	(31,849)	13,151
Postcode Community Trust	20,000	(3,330)	16,670
Tudor Trust Wellbeing	2,000	(1,121)	879
	358,368	(292,821)	65,547
TOTAL FUNDS	384,739	(304,925)	79,814

12. RELATED PARTY DISCLOSURES

There were no related party transactions for the year ended 31st March 2024.

TCC (TREFNU CYMUNEDOL CYMRU/TOGETHER CREATING COMMUNITIES)

DETAILED STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES
FOR THE YEAR ENDED 31ST MARCH 2024

	31.3.24 £	31.3.23 £
INCOME AND ENDOWMENTS		
Donations and legacies		
Legacies	3,448	6,152
Grants	219,983	138,386
Supporter Programme	4,045	4,340
	227,476	148,878
Other trading activities		
Fundraising events	167	347
Education and training income	-	184
	167	531
Investment income		
Interest on cash deposits	4,484	1,130
Other income		
Gift Aid	1,006	1,067
Total incoming resources	233,133	151,606
EXPENDITURE		
Charitable activities		
Wage costs	139,153	115,829
Travel	2,193	1,246
Actions	2,340	-
Assemblies	3,131	638
Translation	757	872
Promotional	-	2,160
Training costs	5,069	5,859
	152,643	126,604
Other		
Postage and stationery	542	962
Insurance	1,170	1,121
Website costs	2,140	-
Equipment repairs & maintenance	271	165
Sundry expenses	566	303
Supplies for youth sessions	1,675	-
Licences	1,667	1,184
Legal fees	3,391	2,316
Independent examination fees	1,260	1,320
Other project costs	1,060	-
Depreciation of tangible fixed assets	1,050	1,035
	14,792	8,406

TCC (TREFNU CYMUNEDOL CYMRU/TOGETHER CREATING COMMUNITIES)

DETAILED STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES
FOR THE YEAR ENDED 31ST MARCH 2024

	31.3.24 £	31.3.23 £
Support costs		
Management		
Telephone	1,030	921
Rent	-	529
	1,030	1,450
Total resources expended	168,465	136,460
Net income	64,668	15,146

TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities)
Cwmni cyfyngedig trwy warant

Adroddiad yr ymddiriedolwyr a datganiadau ariannol
Y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2024

Rhif elusen gofrestredig 1086434
Rhif cwmni 04033853

TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities)

Cwmni cyfyngedig trwy warant

Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2024

Cynnwys	Tudalen
Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol	1
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	18
Adroddiad y Cyfrifwyr i'r Ymddiriedolwyr	19
Datganiad o Weithgareddau Ariannol	20
Mantolen	21-22
Nodiadau sy'n rhan o'r datganiadau ariannol	23-31

TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities) Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol

Gwybodaeth Gyfeiriol a Gweinyddol

Enw'r elusen: TCC (Trefnu Cymunedol Cymru / Together Creating Communities)

Rhif cofrestru'r elusen: 1086434

Rhif cofrestru'r cwmni: 04033853

Swyddfa gofrestredig a chyfeiriad gweithredol: 37 Ffordd Melin y Brenin, Wrecsam. LL13 8NH.

Ymddiriedolwyr a Noddwr

Arglwydd Esgob Gregory Cameron	Noddwr
Mr Peter Burke	
Y Parch Anna Jane Evans	(ymddiswyddodd 5ed Gorffennaf 2023)
Mr Oliver Doak	
Mr Christopher Graffius	
Mrs Melissa Griffiths	Cyd–gadeirydd o 5ed Gorffennaf 2023
Mr Darren Hampton	
Mrs Katja Jewell	Cadeirydd o 5ed Gorffennaf 2023
Mrs Zoe Lavery	
Yr Hybarch Christopher Potter	(Cadeirydd, ymddiswyddodd 5ed Gorffennaf 2023)

Ysgrifennydd y cwmni: Mrs Sue Williams

Cyfrifydd adrodd: MD Coxey a'i Gwmni, 25 Ffordd Grosvenor, Wrecsam, LL11 1BT

Bancwyr: Lloyds Bank ccc, 28 Stryt y Rhaglaw, Wrecsam, LL11 1SE.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn falch o gyflwyno eu hadroddiad a'u datganiad ariannol heb ei archwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2024.

Strwythur, Llywodraethu a Rheoli

Dogfen Lywodraethu

Mae'r sefydliad yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant, a gorfforwyd ar 14eg Gorffennaf 2000 a chofrestrwyd fel elusen 2il Mai 2001. Sefydlwyd y cwmni o dan Femorandwm Cymdeithasu a sefydlodd wrthrychau a phwerau'r cwmni elusennol, ac sy'n cael ei lywodraethu o dan ei Erthyglau Cymdeithasu. Os bydd y cwmni'n cael ei ddirwyn i ben, bydd yn ofynnol i aelodau gyfrannu swm heb fod yn fwy na £1.

Recriwtio a Phenodi Ymddiriedolwyr

Mae cyfarwyddwyr y cwmni hefyd yn ymddiriedolwyr elusen at ddibenion cyfraith elusennol. O dan ofynion y Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu, etholir yr ymddiriedolwyr i wasanaethu am gyfnod o dair blynedd ac ar ôl hynny mae'n rhaid eu hailethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 5ed Gorffennaf 2023, fe wnaeth y Parch Anna Jane Evans a'r Hybarch Chris Potter ymddiswyddo o'r bwrdd ar ddiwedd eu cyfnodau tair blynedd. Estynnodd ymddiriedolwyr, aelod-grwpiau a staff ddiolch enfawr i Anna Jane a Chris am eu holl waith caled. Hoffai TCC ddiolch hefyd i'r Esgob Gregory Cameron, Esgob Llanelwy, sy'n gwasanaethu fel noddwr TCC.

Y nifer lleiaf o ymddiriedolwyr yw chwech a'r uchafswm yw 20. Mae'r ymddiriedolwyr yn ceisio sicrhau bod y bwrdd yn parhau i adlewyrchu'r grwpiau sy'n perthyn i TCC, a hefyd bod ymddiriedolwyr sydd â sgiliau rheoli, ariannol, cyfreithiol a sgiliau eraill yn cael eu hymgorffori yn y tîm. Gofynnir i bob aelod o TCC, nid ymddiriedolwyr yn unig, chwilio am ymgeiswyr addas i sefyll ar gyfer etholiad.

Hyfforddiant a Chynefino Ymddiriedolwyr

Hyd yma, mae pob ymddiriedolwr wedi bod yn gyfarwydd â gwaith TCC cyn eu hethol. Disgwylir bod pob ymddiriedolwr eisoes wedi mynychu hyfforddiant ar egwyddorion trefnu cymunedol eang, neu fynychu'r sesiwn hyfforddi nesaf sydd ar gael. Ar wahân i fynychu cyfarfodydd misol, mae ymddiriedolwyr wedi cyfarfod mewn cyfarfod blynyddol hirach lle astudiwyd unrhyw gyfarwyddebau newydd sy'n berthnasol i TCC, naill ai fel elusen neu fel cwmni, yn ogystal ag unrhyw bwnc neu hyfforddiant priodol arall. Cynhelir cyfarfod cynefino ag ymddiriedolwyr newydd a darperir ffeil iddynt â Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, dogfennau polisi a gweithdrefnau TCC a disgrifiadau swyddi staff.

Rheoli Risg

Yn ystod y flwyddyn mae'r ymddiriedolwyr wedi adolygu'r prif risgiau y mae'r elusen yn agored iddynt a, lle bo'n briodol, mae gweithdrefnau wedi'u sefydlu i liniaru'r risgiau hyn.

Ar ddiwedd 2023, mynychodd yr ymddiriedolwyr weithdy lle cynhaliwyd adolygiad o weithdrefnau gweithredol, ariannol a threfniadol. Ymgysylltodd yr ymddiriedolwyr â gwasanaethau Ymddiriedolaeth Cranfield i gefnogi ehangiad a datblygiad y bwrdd, a chynorthwyo â chreu cynllun busnes TCC. Cynhaliwyd archwiliad sgiliau ymddiriedolwyr i nodi cryfderau a gwendidau ar y bwrdd. Cynhyrchwyd llawlyfr staff cynhwysfawr a chafodd yr holl bolisïau eu hadolygu a'u diweddaru lle bo angen.

Strwythur y Sefydliad

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr gyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol sicrhau bod TCC yn bodloni ei holl rwymedigaethau cyfreithiol ac am oruchwylio'r cyllid. Maent hefyd yn amddiffyn uniondeb TCC ac yn ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw benderfyniadau mawr. Yn benodol, maent yn sicrhau bod gweithgareddau TCC yn bodloni canllawiau'r Comisiwn Elusennau o ran budd i'r cyhoedd. Mae'r ymddiriedolwyr yn cymryd rhan weithredol mewn is-grwpiau fel personél a chyllid. Mae is-grwpiau'n adrodd yn ôl ag argymhellion i'r tîm ymddiriedolwyr llawn. Mae rhai o'r ymddiriedolwyr yn mynychu'r cyfarfod strategaeth misol, sy'n sicrhau bod yr ymddiriedolwyr ac aelodau'r tîm strategaeth yn ymwybodol o waith ei gilydd a bod llif gwybodaeth dwy ffordd.

Mae'r grŵp strategaeth, sy'n cynnwys aelod-grwpiau TCC, staff ac ymddiriedolwyr, yn cyfarfod bob mis i werthuso gwaith presennol TCC, i benderfynu pa faterion sy'n briodol i weithio arnynt, yn ogystal â phennu cyfeiriadau newydd o fewn materion cyfoes. Mae'r grŵp strategaeth yn cysylltu'n uniongyrchol â'r gweithgorau ar gyfer pob mater, yn ogystal ag ymddiriedolwyr ac aelod-grwpiau.

Yn 2022, nododd TCC yr angen i wella ein gwytnwch sefydliadol felly gwnaed penderfyniad strategol i gofleidio model arweinyddiaeth dosbarthedig, er mwyn rhannu'r baich gwaith a'r cyfrifoldeb o wneud penderfyniadau ar draws y tîm. Oherwydd newidiadau yn nhîm staff TCC yn ystod 2023, penderfynwyd y byddai rheolwr yn cael ei recriwtio i arwain tîm staff TCC. Ar Fawrth 1af 2024, penododd yr ymddiriedolwyr Mrs Sue Williams a Ms Ruth Marshall yn gyd-reolwyr TCC, ac mae rheolaeth TCC o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo gan yr ymddiriedolwyr i'r cyd-reolwyr.

Roedd y tîm staff yn cynnwys:

- Arweinydd Llwyddiant Gweithredol, Mrs Sue Williams; penodwyd yn gyd-reolwr ar 1af Mawrth 2024;
- Trefnydd ieuenctid a chymuned, Ms Ruth Marshall; penodwyd yn gyd-reolwr ar 1af Mawrth 2024
- Swyddog cyfathrebu, Dr Stephen Kenyon-Owen;
- Trefnydd cymunedol, Mr David Hughes;
- Trefnydd cymunedol, Ms Bobbi Cockcroft

Budd Cyhoeddus

Amcanion TCC yw:

1. datblygu gallu a sgiliau aelodau cymunedau sydd o dan anfantais gymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a'i gororau mewn ffyrdd sy'n golygu eu bod yn gallu adnabod eu hanghenion, a'u helpu i ddiwallu eu hanghenion, a chymryd rhan yn llawnach mewn cymdeithas.
2. hyrwyddo, er budd y cyhoedd, unrhyw ddibenion elusennol ac yn benodol dibenion elusennol sy'n gysylltiedig â:
    a) hyrwyddo cyfleoedd addysgol a hyfforddiant â phwyslais arbennig ar ddarparu mynediad at gyfleoedd o'r fath i bobl sydd, o ganlyniad i anfantais gymdeithasol ac economaidd, fel arall yn methu â chael mynediad. Hefyd ar feithrin egwyddorion dinasyddiaeth dda a hyrwyddo dealltwriaeth weithredol o'r gyfraith, gwleidyddiaeth, cymdeithas, crefydd, moesau, masnach, diwydiant, y celfyddydau, ecoleg, a phynciau eraill i'r graddau eu bod yn ffafriol i ddinasyddiaeth dda.
    b) hyrwyddo addysg y cyhoedd ym mhob mater sy'n ymwneud â'r amgylchedd, ei gadwraeth, ei warchodaeth a phynciau sy'n gysylltiedig, ac annog y defnydd o ymarfer o'r fath.
    c) adfywio trefol neu wledig mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd
    d) hyrwyddo datblygiad personol trwy annog a galluogi pobl i feithrin y sgiliau sydd eu hangen i gymryd rhan weithredol mewn bywyd dinesig
    e) diogelu, gwella a chadw'r amgylchedd
    f) lleddfu tlodi
    g) darparu cyfleusterau iechyd cyhoeddus a gofal plant
    h) hyrwyddo diogelwch y cyhoedd ac atal troseddu.

Nod allweddol TCC yw meithrin gallu, datblygu unigolion a'u sefydliadau sy'n gallu gweithredu'n effeithiol ar eu gwerthoedd er lles cyffredin trwy eu cyfranogiad mewn bywyd dinesig. Fel y grŵp trefnu cymunedol hynaf yn y DU, mae TCC yn parhau i arloesi ffordd newydd o ganiatáu i bobl gael llais yn eu dyfodol eu hunain.

Mae TCC yn hyrwyddo ei ddibenion elusennol er budd y cyhoedd trwy gyflawni'r amcanion uchod trwy hyfforddi aelodau ac eraill, a rhoi'r adnoddau iddynt gymryd rhan lawn yn eu cymunedau ac felly goresgyn yr anfanteision cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu hwynebu. Yna mae TCC yn gweithio ochr yn ochr â phobl, gan eu hyfforddi ar waith, wrth iddynt ddiwallu anghenion eu cymunedau trwy weithio ar faterion sy'n effeithio arnynt hwy a'r gymuned ehangach.

Cyflawniadau a Pherfformiad 2023 - 2024

Gyda chefnogaeth staff, mae arweinwyr TCC wedi cael blwyddyn arall brysur iawn yn cynnal cyfarfodydd ag aelodau, mynychu grwpiau am faterion, darparu hyfforddiant, gweithredu ar faterion a chynnal digwyddiadau rhwydweithio cymunedol.

Rydym wedi gallu cyflawni ein gwaith wyneb yn wyneb am y flwyddyn lawn gyntaf ers i'r pandemig daro yn 2020, sydd wedi bod yn fuddiol iawn i ddatblygu perthnasau rhwng arweinwyr, staff, cyllidwyr a chynghreiriaid ymhellach. Rydym wedi parhau i gynnig cyfarfodydd a digwyddiadau hybrid lle bynnag y bo modd, i sicrhau cynwysoldeb a hygyrchedd.

Aelodaeth

Mae'r aelodaeth yn cynnwys sefydliadau sy'n cefnogi amcanion yr elusen. Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd 36 o grwpiau yn aelodau.

Bydd ein haelod-grwpiau sy'n aelodau bob amser yn siapio tirwedd y gwaith y mae TCC yn ei wneud; mae'n bwysig bod trefnwyr yn gwirio, asesu a gwerthuso eu gwaith yn gyson i sicrhau bod hyfforddiant ac ymgyrchoedd yn parhau i fod yn ddilys, parchus a pherthnasol i anghenion ein cymuned. Amlygodd arolwg ysgogi newidiadau a gynhaliodd TCC ag aelod-grwpiau a chynghreiriaid yn ystod haf 2023 (y cwblhaodd unigolion a'r rheiny sy'n cynrychioli grwpiau) fod pobl eisiau teimlo'n fwy grymus a gallu gwneud newidiadau yn eu cymuned. Roedd yr arolwg hefyd yn rhoi gwybod i ni am y math o hyfforddiant a fyddai'n cynyddu sgiliau ein haelod-grwpiau fel arweinwyr cymunedol a rhoddodd syniad i TCC o'r materion sydd ar flaen meddyliau ein haelod-grwpiau a'n cynghreiriaid.

Mae TCC wedi ymrwymo i ddatblygu ein perthynas ag aelodau, ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gael sgyrsiau â grwpiau amrywiol am y materion sy'n effeithio ar eu cymunedau a pherthnasedd trefnu cymunedol wrth ymateb i'r rheini.

Rydym bob amser yn chwilio am aelodau newydd ac yn annog ein haelodau presennol i gyflwyno grwpiau newydd i TCC. Dros y flwyddyn ariannol nesaf, byddwn yn chwilio'n arbennig am grwpiau newydd i ymuno â TCC o Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

Cyllid

Derbyniodd TCC ymrwymiadau ariannu oddi wrth Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Tudor, Sefydliad Paul Hamlyn, Cronfa Grym Dinesig, Ymddiriedolaeth Gymunedol Cod Post, ac AVOW ac mae'r rhain wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac wedi darparu parhad. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r cyllidwyr hyn am eu cefnogaeth a'u perthnasau parhaus â TCC.

Mae TCC hefyd yn ddiolchgar iawn i Chwiorydd La Sante Union yn Wrecsam am eu cefnogaeth barhaus mewn nwyddau, sef darparu swyddfeydd ac ystafell gyfarfod. Gwerth hyn yw tua £8,000 y flwyddyn ac mae'n ein galluogi i gadw ein costau gweithredu mor isel â phosibl.

Yn ogystal, mae gwaith ymddiriedolwyr ac arweinwyr wedi ychwanegu'n aruthrol at y gefnogaeth mewn nwyddau.

Yn ystod y flwyddyn mae rhaglen cefnogwyr misol TCC wedi codi £4,045. Bydd hyn yn gyfanswm o tua £4,850 unwaith y bydd Cymorth Rhodd wedi'i ychwanegu. Hoffai'r ymddiriedolwyr ddiolch yn arbennig i'r unigolion sy'n rhan o raglen cefnogwyr TCC, ac annog

unrhyw un arall sy'n ystyried ymuno a gwneud cyfraniad rheolaidd i TCC i wneud hynny. Mae tâl aelodaeth yn parhau i fod yn elfen hanfodol o'n cyllid, gan godi £3,450 eleni.
Mae arianwyr yn aml yn gofyn am dystiolaeth o weithgareddau codi arian sefydliad ei hun, felly mae'r arian a godir hefyd yn hynod ddefnyddiol wrth ymgeisio am grantiau mwy.

Gweithio â Phartneriaid

Hoffai'r ymddiriedolwyr ddiolch i'r nifer o sefydliadau y mae TCC wedi gweithio â nhw dros y flwyddyn ddiwethaf; rydym yn gwerthfawrogi'r holl berthnasoedd hyn ac ni allem gyflawni ein gwaith hebddynt.

Rydym yn parhau i weithio'n agos ag amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys AVOW (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam), CPCC, a Hwb Amlddiwylliannol Wrecsam.

Gwnaethom barhau i adeiladu ein perthynas â'r Gronfa Rym Ddinesig (CPF), sefydliad sy'n buddsoddi'n uniongyrchol mewn trefnu ar lawr gwlad ac yn yr isadeiledd sydd ei angen arno i ffynnu. Rydym yn gweithio â CPF fel partneriaid i gael mynediad at eu gwybodaeth, rhwydweithiau cymorth, a chyfleoedd ariannu i wella sgiliau trefnwyr ac arweinwyr cymunedol a rhannu dysgu ar draws ein haelod-grwpiau.

Ym mis Medi 2023, cyflwynodd TCC, Banc Bwyd Wrecsam, a Chyngor ar Bopeth Wrecsam gais grant ar y cyd i Sefydliad Banc Lloyds ar gyfer prosiect cydweithio. Bydd y prosiect yn cynnwys creu strategaeth dlodi a'i nod yw dylanwadu ar gyflawni Cynllun Lles Wrecsam dros y pum mlynedd nesaf. Roedd y cais am arian grant ar y cyd yn llwyddiannus, ac ym mis Mehefin 2024 bydd TCC yn ceisio recriwtio cydlynydd prosiect i redeg y prosiect cydweithio a fydd yn cael ei ariannu am ddwy flynedd.

Gwnaethom ffurfio cynghrair unedig â menter Hafan Meddyliau Iach, y sefydlodd TCC Ieuenctid ar Waith, i'w gweithredu ym Mhrosiect Meddwl Ymlaen/Mind Our Future Gogledd Ddwyrain Cymru mae'r Loteri Genedlaethol yn ei ariannu.

Mae Uno'r Undeb wedi cefnogi ymgyrch ieuenctid Dim Dysgwyr Llwglyd, trwy gynhyrchu a dosbarthu taflenni codi ymwybyddiaeth. Wrth i'r ymgyrch fynd yn ei blaen, bydd Uno'r Undeb yn parhau i gynnig arweiniad a chefnogaeth i'r grŵp ymgyrchu.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos â Phartneriaeth Bwyd Wrecsam, grŵp amlasiantaeth newydd y cychwynnodd CBSW i fynd i'r afael â thlodi bwyd, a sefydliadau cymorth o ran darparu gwasanaethau a chynaliadwyedd bwyd cyffredinol, ac rydym hefyd wedi sefydlu perthynas ag EGIN, sefydliad sy'n galluogi grwpiau cymunedol i gael mynediad at gymorth mentor cyfoedion i gymryd eu camau cyntaf tuag at weithredu ar newid yn yr hinsawdd a byw'n fwy cynaliadwy. Prif ffocws EGIN yw helpu'r rheiny y bydd newid yn yr hinsawdd yn cael yr effaith fwyaf arnynt, ond efallai y byddant yn aml yn teimlo nad ydynt yn rhan o sgyrsiau ynghylch hinsawdd.

Mae TCC yn parhau i gydweithio â WCPP (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru) gan drafod gwaith â'r argyfwng ariannol/tlodi o ganlyniad i ymarferion/ymgyrchoedd gwrando a grybwyllir mewn mannau eraill uchod, sef #DimDysgwyrLlwglyd, a Mannau Cynnes.

Mae bod yn rhan o Glymblaid Wrthdlodi Cymru yn golygu ein bod, gyda'n gilydd, yn gallu

gweithredu'n gyflym ar ddatblygiadau allweddol yn y gwaith yn erbyn tlodi yng Nghymru, yn ogystal â dilyn dull tymor hwy o weithredu.

Hoffai'r bwrdd ddiolch i Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru Llanelwy am gyfraniad yr Esgob Gregory Cameron yn ei rôl fel noddwr TCC. Hoffai'r bwrdd ddiolch ymhellach i Mrs Katja Jewell am ymgymryd â rôl cadeirydd bwrdd ymddiriedolwyr TCC. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru trwy'r Parch Anna Jane Evans a eisteddodd ar fwrdd ymddiriedolwyr TCC tan fis Gorffennaf 2023.

Hyfforddiant

Haf o Grefft Ymgyrchu

Yn haf 2023, trefnodd TCC weithdai rhagarweiniol am ddim ar drefnu cymunedol a chrefft ymgyrchu. Er mwyn hyrwyddo cyfranogiad ehangach, a chael gwared ar rwystrau cyfranogi, gwnaethom ddarparu bwyd poeth ac adnoddau ar gyfer teithio a chyfathrebu. Yn ystod y gweithdai, gwnaethom ofyn i'r bobl ifanc am anghenion eu cymuned a rhoi cyfle iddynt fynegi eu barn trwy lunio mapiau sy'n dwyn sylw at rwystrau i lawenydd a diogelwch. Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) yn bresennol, sy'n ceisio gwella cydweithio ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Roeddent yn bresennol i glywed lleisiau'r bobl ifanc ac alinio eu pryderon â pholisi o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r gweithgareddau hyn yn cysylltu â'n hymdrechion parhaus i ddefnyddio ymarfer creadigol fel offeryn ar gyfer newid cymdeithasol dan arweiniad ieuenctid, a chwyddleisio'r rheiny na all eu geiriau a'u gweithredoedd, ar adegau, gael eu clywed am wahanol resymau.

Hyfforddiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mynychodd aelodau staff, 8 arweinydd cymunedol, a phobl nad oeddent yn aelodau o sefydliadau cysylltiedig yr hyfforddiant hwn, ac roedd yn galluogi pobl i ddeall yn well y cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am gyfrannu at y Ddeddf, yr hyn roeddent yn gyfrifol amdano, a sut, trwy gyd-gynhyrchu, mhant yn ceisio gweithio'n well â phobl a chymunedau i helpu i lunio Cymru rydym i gyd eisiau byw ynddi. Alice Horn, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, cynhaliodd yr hyfforddiant, a darparodd drawsnewidiad addas i sesiynau hyfforddi pellach â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol ar y Cynllun Lles arbenigol ar gyfer Wrecsam a Sir y Fflint.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Yn dilyn yr hyfforddiant llwyddiannus â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ym mis Awst, llwyddodd TCC i sicrhau sesiwn hyfforddi â chynrychiolydd o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) Wrecsam a Sir y Fflint. Er mwyn gwneud y mwyaf o'r potensial o ran amser a phresenoldeb, gwnaethom gyfuno'r hyfforddiant â'n cyfarfod Strategaeth ym mis Medi, gan ein galluogi i'w gynnal fel sesiwn hybrid. Roedd y sesiwn yn cyflwyno rôl y PSB, ei rhanddeiliaid allweddol, a beth yw ei amcanion. Ar lefel leol, mae'r PSB wedi gweithio i greu Cynllun Lles Wrecsam a Sir y Fflint (2023-2028), i weithio o amgylch tair thema allweddol i bob pwrpas: Plant a Phobl Ifanc, Ein Cymunedau, a Lle Rydym yn Gweithio. Drwy gydol y sesiwn, roedd y rheiny a oedd yn bresennol yn gallu gofyn cwestiynau strategol ar sut y gallai'r PSB eu helpu, neu sut y gallent weithio ochr yn ochr â'r PSB a'r Cynllun Lles lleol i helpu i ddylanwadu ar newid cadarnhaol a chynaliadwy yn eu cymunedau.

Hyfforddiant Trefnu Cymunedol Preswyl

Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd ein hyfforddiant preswyl blynyddol yn Noddfa. Eleni dewisodd TCC ganolbwyntio ar drefnu ieuenctid, a mynychodd arweinwyr ifanc TCC, ac aelodau ifanc eraill o grwpiau cysylltiedig, yr hyfforddiant Roedd y pynciau'n amrywio o nodweddion

sylfaenol trefnu, fel cynghrair eang, grym, hunan-ddiddordeb, a llunio strategaeth, i gysyniadau mwy newydd, fel trefnu digidol, “clicktivism”, a chrefft ymgyrchu. Gwnaethom ymgorffori technoleg ryngweithiol yn y sesiynau, a gafodd dderbyniad da. Roedd yr adborth yn gadarnhaol, yn darparu mewnwelediad, ac yn rymusol, a bydd yn ein helpu wrth sicrhau bod sesiynau hyfforddi yn y dyfodol (ar gyfer oedolion ac ieuenctid) yn effeithiol, perthnasol ac yn cynnig gwerth am arian.

Lles Ymgyrchwyr Ifanc
Mae ymrwymiad TCC i hyrwyddo lles unigolion ifanc yn amlwg trwy ddatblygiad parhaus ei becyn cymorth llesiant ar-lein, a modiwlau hyfforddi dan arweiniad ieuenctid, ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ag ymgyrchwyr ifanc. Mae'r mentrau hyn wedi galluogi TCC i rymuso ysgogwyr newid ifanc i ddiogelu eu hunain, amddiffyn eu lles, a chwyddo’u lleisiau.

Ymhlith yr hyfforddiant arall rydym wedi'i ddarparu drwy gydol y flwyddyn mae:

- **Cyflwyniad i Ddemocratiaeth a Phroses Cyfarfodydd Atebolrwydd**
    - Pontio Treffynnon
    - SOGS (Save Our Green Spaces) Dinbych
- **Beth yw Grym?**
    - Partneriaeth Parc Caia
    - FJWG - Gweithgor Cyfiawnder Ariannol
- **Cyflwyniad i Grefft Ymgyrchu**
    - Outside Lives
- **Hyfforddiant Problem yn erbyn Materion**
    - Pontio Treffynnon

Personél

Ym mis Ebrill 2023, ymunodd Bobbi Cockcroft â thîm TCC fel trefnydd cymunedol. Oherwydd cyllid gan Sefydliad Paul Hamlyn, cynyddodd Ruth Marshall, trefnydd ieuenctid a chymuned TCC, ei horiau gwaith wythnosol o 16 i 30. Ym mis Hydref 2023, gadawodd y Trefnydd Cymunedol Amy Jones ei rôl yn TCC, i ymgymryd â swydd newydd o fewn elusen arall yn Wrecsam.

Mae'r bwrdd ymddiriedolwyr a'r staff wedi bod yn cydweithio'n agos i sicrhau bod TCC yn parhau i gyflawni ei amcanion elusennol yn llwyddiannus. Ers bron i ddwy flynedd, mae TCC wedi bod yn canolbwyntio ar ddull gweithio cydweithredol â model arweinyddiaeth dosbarthedig. Yn haf 2023, ail-werthusodd TCC y model gwaith hwn ac, ar ôl cyfnod o ymgynghori, penderfynodd y staff a'r tîm ymddiriedolwyr y byddai rheolwr elusen yn cael ei benodi i arwain TCC. Sicrhawyd cyllid ar gyfer y rôl hon, ac ym mis Mawrth 2024 penodwyd aelodau presennol y tîm staff, Sue Williams a Ruth Marshall yn gyd-reolwyr TCC. Cafodd y newid hwn mewn strwythur ei gefnogi gan Ymgynghorydd Ymddiriedolaeth Cranfield sy'n parhau i gynghori'r rheolwyr newydd a'r bwrdd ymddiriedolwyr.

Gweithgareddau a Chyflawniadau'r Flwyddyn Ddiwethaf

Mae TCC wedi bod yn llwyddiannus iawn dros y flwyddyn ddiwethaf, ond nid ydym wedi gweithredu ar ein pennau ein hunain. Cyflawnwyd yr holl lwyddiannau hyn trwy weithio â sefydliadau, grwpiau ac unigolion eraill yn yr ardal.

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn heriol i lawer o sefydliadau, gan gynnwys y trydydd sector, ond maent hefyd wedi arwain at gyfleoedd, yn benodol o ran ffyrdd newydd o ymgysylltu a galluogi deialog effeithiol â'r cymunedau o'n cwmpas.

Ochr yn ochr â rhyngweithio wyneb yn wyneb, cafwyd gwell defnydd o amgylcheddau ac offer digidol i gymryd lle, neu wella cyfathrebu; mae hyn yn arbennig o bwysig yn nalgylch daearyddol Gogledd Ddwyrain Cymru â phocedi mwy o boblogaeth, a nifer o bentrefi a chymunedau llai. Er mwyn sicrhau bod gan bawb lais, mae defnyddio offer cymunedol digidol yn cael gwared ar rwystrau fel teithio a lleoliad. Wrth ymestyn y cysyniad hwn, fe welwch hefyd ein bod yn ehangu ymhellach ein gallu allgymorth digidol trwy 2023, o fewn Gweledegdd ac Ymgysylltu Digidol – yn datblygu gwefan newydd, ac offer hyfforddi a dysgu cysylltiedig a fydd yn ein cynorthwyo i dyfu'r sefydliad a'i gyrhaeddiad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae TCC wedi darparu 80 awr o hyfforddiant. Cymerodd aelodau TCC ran mewn dros 200 awr o wneud penderfyniadau, dysgu a gweithredu ar y cyd fel cynghrair. Gwnaethom gyrraedd dros 500 o unigolion newydd o aelod-grwpiau, yn ogystal ag ymgysylltu â'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau o bob plaid wleidyddol a chynghreiriad.

Materion a Gweithredoedd

Ymgyrchoedd Cyfredol ac Adeiladu Perthnasau

- Croesawodd TCC bedwar aelod-grŵp newydd – Eglwys Gadeiriol y Santes Fair, Celfyddydau Pallaam, UAREUK, a Dinas Noddfa Sir Ddinbych â grwpiau eraill gan gynnwys Gardd Furiog Fictoraidd Erlas, a Rhannu Bwyd Llangollen yn dymuno ymuno yn y dyfodol agos.
- Gan weithio â sefydliadau a grwpiau cymunedol ledled Wrecsam, ffurfiwyd y Grŵp Cyfiawnder Ariannol (FJWG) i ennill profiadau byw pobl o effaith ariannol yr argyfwng costau byw, a gweithio i gyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau i Strategaeth Wrthdlodi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Mae TCC yn parhau i weithio ar ymgyrch Toiledau Changing Places. Mae'r ymgyrch wedi ennill elfennau mewn perthynas â Thoiledau Changing Places yn Sir Ddinbych, fodd bynnag, mae anawsterau wedi arwain at ymgysylltu ag awdurdodau lleol eraill, ac mae'r pwysau y mae cynghorau lleol yn eu hwynebu mewn perthynas â chyllidebau is wedi golygu bod heriau'n dal i gael eu hwynebu. Enillodd Mencap arian ar gyfer Toiledau Changing Places yn Sir Ddinbych a gweithiodd TCC â nhw i sicrhau bod ymgynghoriad â phartïon â diddordeb yn cael ei gynnal.
- Cynhaliwyd Ymgyrch Wrando Croeso Cynnes ag aelod-grwpiau - i gofnodi profiadau byw pobl yn ymwneud â chartrefi cynnes, effaith mannau cynnes yn y cymunedau, a'r heriau a wynebir wrth gadw eu cartrefi eu hunain yn gynnes yn ystod yr argyfwng costau byw. Cafodd y wybodaeth hon ei throsglwyddo i lefel genedlaethol â Chroeso Cynnes, a'i defnyddio fel ymchwil lleol gan y Grŵp Cyfiawnder Ariannol. Mae'r ymgyrch yn cael ei phweru gan glymblaid o elusennau sy'n cael eu cynnull gan y Good Faith Foundation a'u hariannu gan y Gronfa Grym Dinesig.

- Yn dilyn Ymgyrch Wrando Cartrefi Cynnes/Mannau Cynnes, mynychodd aelodau-grwpiau TCC a threfnydd cymunedol TCC Gynhadledd Genedlaethol Birmingham ar Fannau Cynnes a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2023, a chyflwyno'r darganfyddiadau.
- Mae TCC yn parhau i fod yn rhan o'r Rhwydwaith Trefnu Cymunedol Ewropeaidd (ECON). Mae ECON yn cynnig hyfforddiant a mentora, sgiliau addysgu ac yn helpu trefnwyr cymunedol i ddatblygu ymarfer strategol.
- Mae TCC yn parhau i fod yn rhan o glymblaid Diverse5050 dan arweiniad WEN Cymru.
- Trwy ein hymdrechion trefnu ieuenctid, mae TCC wedi cael y fraint o ffurfio partneriaeth â Phrifysgol Wrecsam ar sawl prosiect addawol. Rydym wedi derbyn gwahoddiad i gyfrannu at ddatblygiad y cwrs gradd ieuenctid a chymunedol, gan hwyluso lleoliadau myfyrwyr a chyflwyno darlithoedd gwadd ar arweinyddiaeth ieuenctid, newid a lleisiau mewn gweithredu trawsnewidiol. Yn ogystal, rydym wedi cael gwahoddiad i gydweithio i gasglu a mewnbynnu data ar gyfer Hwb Data Ieuenctid newydd i Gymru. Bydd yr Hwb a'i ddata ar lwyfan cenedlaethol, gan dynnu sylw at themâu effaith ar gyfer ymarferwyr a chyllidwyr o ran meddyliau a phryderon pobl ifanc, a monitro agweddau newidiol yr hyn sy'n bwysig i bobl ifanc.
- Ym mis Hydref 2023 pleser TCC oedd croesawu tri threfnydd o FOCO (Ffederasiwn y Trefnwyr Cymunedol) yn yr Almaen. Roedd y grŵp yn y DU i gymryd rhan mewn cyfnewidfa wybodaeth â sefydliadau tebyg yn Wrecsam, Lerpwl a Manceinion. Tra'u bod nhw yma, fe wnaethom gyflwyno hanes TCC, ein dulliau o weithredu a'n hymarferion gorau, trefnu ieuenctid, gweithredu digidol, ynghyd ag amlinelliad o faterion ac ymgyrchoedd newydd rydym yn gweithio arnynt.
- Rydym wedi cydweithio ag Eglwys Gadeiriol y Santes Fair i ddwyn ynghyd pobl ifanc sy'n angerddol am fynd i'r afael â materion sy'n bwysig iddynt. Bwriedir i'r bartneriaeth hon fod yn ymrwymiad hirdymor i gefnogi mentrau ieuenctid o'r fath.
- Cefnogodd TCC SOGS (Save Our Green Spaces) trwy ddarparu hwyluso mewn digwyddiad ymgynnull cymunedol yn Sir Ddinbych.
- Mae'r Eglwys yng Nghymru a Mind Cymru wedi bod yn ffynonellau gwych o ddysgu ac arweiniad a rennir, wrth ddarparu offer llesiant i weithredwyr ifanc.
- Mynychodd ein trefnwyr Seminar Ymarferwyr Dysgu BME Plant a Phobl Ifanc EYST (Tîm Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru), a oedd yn darparu dysgu craff ynghylch cymhwysedd diwylliannol wrth weithio â chymunedau diaspora ac ymgysylltiad â Dinas Noddfa.
- Mae Art and Soul Tribe a The Venture, Wrecsam yn rhan o grŵp sy'n cefnogi menter Meddwl Ymlaen (Mind Our Futures). Rydym wedi cyfrannu at y fenter ac wedi sefydlu cysylltiadau cryf i ddarparu gwell gwasanaethau llesiant mewn ysgolion.

Mae'r canlynol yn faterion sy'n dod i'r amlwg sy'n datblygu:

- Dechreuodd ymchwil i mewn i ymgyrch i ymestyn Cynllun Bikeability yn ysgolion cynradd Sir Ddinbych, ynghyd â gwella llwybrau beicio yn Ninbych.
- Dechreuodd ymchwil i mewn i ymgyrch i gynyddu hygyrchedd cadeiriau olwyn ar Lwybr Arfordir Sir y Fflint.

Arweinwyr Ifanc

- Cynhaliwyd 46 o gyfarfodydd grŵp Ieuenctid ar Waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Mynychodd arweinwyr ifanc CCB TCC, y Diwrnod Cynllunio Blynyddol a chyfarfodydd Strategaeth fisol.

- Dim Dysgwyr Llwglyd - mae arweinwyr ifanc o Ysgol Sant Joseff Wrecsam wedi treulio'r flwyddyn ddiwethaf yn canolbwyntio ar leddfu baich dyledion Cinio Ysgol. Maent wedi gweithio'n ddiflino, gan gyfarfod â Phennaeth eu Hysgol, yr ASau Ken Skates a Lesley Griffiths, ac Arweinydd Addysg Wrecsam, i dynnu sylw at y mater. Cyflwynodd yr arweinwyr ifanc hyn eu hymgyrch i'r Comisiynydd Plant, a wahoddodd yr ymgyrch i fod yn brif destun yn yr Uwchgynhadledd Tlodi Plant a gynhaliwyd yn Neuadd Brangwyn yn Abertawe. Cynhyrchodd TCC fideo ymgyrch hyrwyddo ar gyfer yr achlysur, a oedd yn cynnwys yr arweinwyr ifanc ac yn hyrwyddo gofynion eu hymgyrch.
- Mae'r grŵp ymgyrch DDLl wedi mynychu gweithdai â'r Grŵp Cyfiawnder Ariannol a CPCC i weithredu yn erbyn stigma tlodi.
- Gwnaethom gefnogi arweinwyr ifanc i gyflwyno yng ngweithdy Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP), a chymryd rhan ynddo, i fwydo i mewn i waith gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i fynd i'r afael â stigma tlodi.
- Ymgyrch Hawl i Chwarae - mae'r ymgyrch hon ar waith ac mae'n bwriadu parhau i'r tymor nesaf drwy gydol blwyddyn ysgol 2023/2024. Mae'r Ymgyrch Hawl i Chwarae yn rhan o gwricwlwm yr ysgol, ac mae mesurau gofalus yn cael eu trafod yn barhaus i gynnal y berthynas rhwng TCC a'r prosbectws ysgol newydd.
- Cynhaliodd Ysgol Sant Christopher a TCC, ynghyd â gwasanaethau eraill o'r gymuned gelfyddydol ehangach, ddigwyddiad ysgol gyfan ar sail Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn gan ddefnyddio dulliau creadigol ar gyfer ymgyrchu ac addysg.
- Arweiniodd TCC sesiynau ABCh yn Ysgol Sant Joseff, lle cymerodd dros 30 o ddisgyblion ran mewn hyfforddiant wedi'i gyd-gynhyrchu, wedi'i darparu gan gyfoedion, gan arweinwyr ifanc.
- Nododd grŵp Ieuenctid ar Waith TCC broblem ynghylch tocynnau bws am ddim, a chychwynnwyd ymgyrch i fynd i'r afael â diffyg darpariaeth i fyfyrwyr a oedd yn byw ychydig o dan y ffin 3 milltir, ond a oedd yn gorfod cerdded trwy ardaloedd tywyll ac anniogel.
- Tlodi Bwyd – ceir cydweithrediad parhaus â Banc Bwyd Wrecsam a Mosg Wrecsam ynghylch amrywiaeth o fwydydd sydd ar gael i blant iau a babanod.

Gweledegdd ac Ymgysylltu Digidol
Mae TCC yn archwilio potensial ei bresenoldeb digidol yn barhaus, sy'n cwmpasu ein gwefan, Facebook, Instagram, Linkedin, Twitter / X, a YouTube.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae TCC wedi:

- cymryd rhan mewn ymchwil ynghylch pryd a beth i'w bostio – gan greu dogfen ganllawiau Amledd Cyfryngau Cymdeithasol – achosodd hyn gynnydd o ran y traffig i'n mannau ar-lein.
- Cynyddu amrywiaeth y cynnwys a bostiwyd, gan gynnwys fideos byr o ddiwrnodau hyfforddi ac ymgysylltu. Mae hyn wedi arwain at fwy o ryngweithio, a mwy o ddilynwyr.
- Yn strategol, rydym wedi symud i ffwrdd yn raddol o Twitter/X oherwydd y newidiadau mewn aelodaeth, a'r hyn roeddem yn teimlo oedd yn amgylchedd mwy gwenwynig - nid yw postiadau'n cael y tyniant roeddent yn cael yn y gorffennol cyn dilysiad 'tic glas'.
- Wedi 'ailwampio'r' wefan gan gynnwys defnyddio technegau 'adrodd stori trwy sgrolio' i fywiogi cynnwys y we.

Ar hyn o bryd mae TCC hefyd yn ymwneud ag archwilio llwyfannau a fydd yn chwyddo llais ein darpariaeth ddigidol, gan ail-archwilio ein presenoldeb ar-lein blaengar.

- Rydym wedi gallu ymgymryd â gwaith o'r fath trwy geisiadau ariannu llwyddiannus gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gymunedol Cod Post, sydd wedi caniatáu prynu offer perthnasol, ac ehangu rolau staff.
- Rydym wedi cyfarfod â sefydliadau ac arbenigwyr allweddol eraill y trydydd sector gan gynnwys Act Build Change, a Common Knowledge.org i drafod ymarfer gorau, rhannu gwybodaeth, a chydweithio posibl. Roedd y trafodaethau'n amhrisiadwy, oherwydd y daeth i'r amlwg mai ychydig iawn o sefydliadau'r trydydd sector sy'n gwella eu darpariaeth yn y fath fodd - nid yw hynny'n golygu nad ydynt eisiau gwneud hyn - ond fel erioed, cyllid a chapasiti yw'r prif rwystrau.

I'r perwyl hwn, mae TCC yn:

- Adeiladu gwefan newydd, gan weithio â'r cwmni technoleg lleol Industrial Standards.
- Symud o Wix i WordPress; Dewiswyd Wordress oherwydd ei fod yn hyblyg, yn gymharol hawdd i'w ddefnyddio o safbwynt defnyddiwr (hy. Staff TCC), ac yn integreiddio'n dda â llawer o ychwanegion, ac yn benodol Systemau Rheoli Dysgu (LMS)
- O ran defnyddio LMS, rydym yn bwriadu creu cydrannau hyfforddi hybrid modiwlaidd o fewn y wefan, gan ddefnyddio LearnDash â theitlau i'w cadarnhau, ond elfennau fel: Cyflwyniad i Drefnu Cymunedol, Diogelu, Pecynnau Cymorth Lles, Grym, Gwrando, Adrodd Straeon, ac ati. Bydd y modiwlau hyn yn gymysgedd o gynnwys am ddim ac am daliad a fydd ar gael ar-lein, gan gynnwys cymysgedd o gynnwys testun, sain a fideo.
- Mae offer recordio cyfweliadau a phodledu/maes wedi'i brynu i gofnodi profiadau byw a straeon cymunedol.
- Bydd lle ar gyfer Blog Ieuenctid pwrpasol a fydd yn cael ei reoli gan ein grwpiau ieuenctid.
- Ar hyn o bryd rydym yn y cam prototeip â Chwrs Rhagarweiniol ar Drefnu Cymunedol sy'n cael ei werthuso gan ein harweinwyr ifanc.
- Nod yr uchod yw mwy o 'gyrhaeddiad' a chynaliadwyedd i'r sefydliad, ac ymestyn cylch gwaith craidd TCC sef grymuso arweinwyr cymunedol i wneud y newid cadarnhaol y dymunant ei wneud, ble bynnag y bônt.

Ymhlith y gweithgareddau roedd:

Diwrnod Cynllunio Blynyddol

Yn ystod Diwrnod Cynllunio Blynyddol TCC, a gynhaliwyd ar ddechrau 2024, gwnaethom gymryd rhan mewn trafodaethau cydweithredol â'n haelod-grwpiau i ail-werthuso ac ailddiffinio ein perthynas â nhw yng ngoleuni effeithiau parhaus pandemig COVID-19 a chostau byw cynyddol. Mynychodd 34 o bobl y digwyddiad hwn, a rhoddodd gyfle i ni ymchwilio i gymhlethdodau ein cymuned ac archwilio'r ffordd orau o fynd i'r afael ag anghenion esblygol ein haelod-grwpiau. Ein nod oedd nodi cyfleoedd i gryfhau ein partneriaethau ac ail-alinio ein gweledigaeth a'n cenhadaeth i wasanaethu'r gymuned yn well yn y cyfnod heriol hwn.

CCB

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023 ym mis Gorffennaf yng Nghapel y Groes yn Wrecsam. Mynychodd 30 o bobl y cyfarfod o aelod-grwpiau presennol a grwpiau newydd a oedd â diddordeb mewn ymuno â TCC. Cynrychiolodd pump o arweinwyr ifanc TCC eu grwpiau a chymryd rhan weithredol yn y cyfarfod.

Grwpiau Materion
Mae ein trefnwyr cymunedol wedi cynnal perthynas ag aelodau presennol trwy grwpiau materion, cyfarfodydd 1 i 1, a, phan fo'n briodol, mynychu digwyddiadau. Mae lefelau ymgysylltu yn parhau i fod yn gyson, sy'n glod i'r gwaith caled a wnaed gan drefnwyr blaenorol ac enw da cyffredinol TCC. Mae grwpiau materion yn parhau i gyfarfod unwaith y mis ar gyfartaledd.

Cyfarfodydd Strategaeth
Yn ystod cyfarfodydd Strategaeth misol, mae aelod-grwpiau yn codi materion yr hoffent eu datblygu fel ymgyrchoedd posibl. Mae hyn yn agor y drafodaeth i'r holl fynychwyr gymryd rhan a darganfod a yw'r materion hyn yn gyffredin, a phwy arall sydd â diddordeb mewn gweithio arno fel ymgyrch. Mae cyfarfodydd strategaeth yn parhau i fod yn rhan annatod o'r ffordd y mae TCC yn ymgysylltu â'i aelodau, ac mae'r model cyfarfod hybrid yn dal i fod yn llwyfan amhrisiadwy i hyrwyddo cynwysoldeb trwy gael gwared ar rwystrau i gynhwysiant o ran amser a daearyddiaeth.

Digwyddiadau
Ym mis Hydref, cynhaliodd TCC fwrdd gwybodaeth yn nigwyddiad Dathlu a Dyrchafu Hanes Pobl Dduon 365 Cyngor Hil Cymru yn Lle Celf a Chymuned Tŷ Pawb, Wrecsam ac roeddent yn gallu dangos y ffilm Tref Noddfa a greodd TCC ac arweinwyr yr aelod-grwpiau yn 2019. Denodd presenoldeb TCC yn y digwyddiad hwn sylw'r Maer lleol, cynrychiolwyr y bwrdd iechyd lleol, ac Uchel Siryf Clwyd.

Llywodraethu a Threfnu

- Er mwyn cefnogi lles staff, gwnaethom barhau i fod yn rhan o raglen cymorth i weithwyr a rhoi mynediad i staff i sesiynau hyfforddi ar-lein yn y gweithle.
- Mae staff ac ymddiriedolwyr wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod strategaeth ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â llywodraethu.
- Mae staff wedi mynychu cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr i roi adborth llafar ar yr adroddiad staff ysgrifenedig.
- Ymgymerodd yr ymddiriedolwyr â hyfforddiant llywodraethu, a defnyddiwyd gwasanaethau Ymddiriedolaeth Cranfield i oruchwylio'r newid o'r model arweinyddiaeth dosbarthedig i strwythur dan arweiniad rheolwyr.

Adolygiad Ariannol

Prif Ffynonellau Ariannu
Grantiau oedd prif ffynhonnell ariannu TCC yn 2023-24. Rydym wedi derbyn arian oddi wrth:

- Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Sefydliad Paul Hamlyn
- Cronfa Grym Dinesig
- Ymddiriedolaeth Gymunedol Cod Post
- AVOW

Mae'r grantiau'n ychwanegol at y taliadau aelodaeth blynyddol y mae aelod-grwpiau TCC yn eu talu, y rhaglen gefnogwyr, a chodi arian.

Polisi Cronfeydd wrth Gefn
Mae gan yr ymddiriedolwyr bolisi o ddal swm sy'n cyfateb i rhwng chwech a deuddeg mis o wariant anghyfyngedig mewn cronfeydd wrth gefn rhydd, er mwyn diogelu parhad gwaith craidd TCC. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, roedd gan yr elusen gyfwerth â thua 6 mis o wariant anghyfyngedig mewn cronfeydd wrth gefn rhydd.

Polisi Buddsoddi
Mae Erthyglau Memorandwm TCC yn awdurdodi adneuo neu fuddsoddi arian nad oes ei angen ar unwaith at ei ddiben. Felly, agorwyd cyfrif cadw Cronfa Buddsoddi Swyddogol Elusennau (COIF) ym mis Mai 2008.

Cynlluniau ar gyfer Cyfnodau'r Dyfodol
Mae trefnu cymunedol yn ymwneud ag adeiladu perthnasoedd cyhoeddus cadarnhaol â'r rheiny sydd mewn grym. Mae'n meithrin perthnasoedd cymunedol hirdymor ac yn darparu model i bobl o bob cefndir ymgysylltu'n ddemocrataidd wrth wneud penderfyniadau. Credwn yn gryf, mewn cyfnod gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sydd wedi hollti, fod gan drefnu cymunedol lawer i'w gynnig.

Mae angen i ni barhau i ddiwallu anghenion a disgwyliadau ein harweinwyr newydd, a mwy profiadol, yn effeithiol a chydweithio o amgylch diddordebau cyffredin a gwerthoedd a rennir. Ym mis Gorffennaf 2024, mae TCC yn cynnal diwrnod agored er mwyn i aelod-grwpiau presennol, cynghreiriaid, arweinwyr cymunedol ac unigolion sydd â diddordeb mewn newid cymdeithasol ddod i'n swyddfeydd ar gyfer sgyrsiau am sut i adeiladu grym cymunedol, cyfleoedd hyfforddi, crefft ymgyrchu, gweithdai TCC, cyllid ar gyfer newid, aelodaeth ieuenctid, ac ymddiriedolaeth.

Bydd sesiynau hyfforddi byr yn parhau i gael eu cynnal yn rheolaidd gan ein trefnwyr; ymhlith y rhain mae sesiynau am adeiladu grym, mapio grym, a threfnu cymunedol.

Yn ystod hydref 2024, byddwn yn cynnal hyfforddiant cyflwyniad i drefnu cymunedol, a byddem yn annog unrhyw un sy'n newydd i TCC fynychu'r hyfforddiant hwn, a fydd yn datblygu eu dealltwriaeth o drefnu cymunedol a sut mae aelod-grwpiau TCC yn cydweithio ar faterion.

Gyda newidiadau yn y bwrdd ymddiriedolwyr, a newid yn strwythur staff y tîm, mae TCC wedi adolygu, cryfhau a gwella prosesau llywodraethu.

Cymeradwywyd gan yr ymddiriedolwyr ar 8fed Awst ac wedi'i arwyddo ar eu rhan:

Mrs Melissa Griffiths (Cadeirydd Dros Dro)

REGISTERED COMPANY NUMBER: 04033853 (England and Wales)
REGISTERED CHARITY NUMBER: 1086434

REPORT OF THE TRUSTEES AND

UNAUDITED FINANCIAL STATEMENTS

FOR THE YEAR ENDED 31ST MARCH 2024

FOR

TCC (TREFNU CYMUNEDOL CYMRU/TOGETHER CREATING COMMUNITIES)

M. D. Coxey and Co. Limited
Chartered Accountants
25 Grosvenor Road
Wrexham
LL11 1BT

TCC (TREFNU CYMUNEDOL CYMRU/TOGETHER CREATING COMMUNITIES)

CONTENTS OF THE FINANCIAL STATEMENTS
FOR THE YEAR ENDED 31ST MARCH 2024

	Page
Report of the Trustees	18
Independent Examiner's Report	19
Statement of Financial Activities	20
Balance Sheet	21 to 22
Notes to the Financial Statements	23 to 29
Detailed Statement of Financial Activities	30 to 31

TCC (TREFNU CYMUNEDOL CYMRU/TOGETHER CREATING COMMUNITIES)

REPORT OF THE TRUSTEES
FOR THE YEAR ENDED 31ST MARCH 2024

The trustees who are also directors of the charity for the purposes of the Companies Act 2006, present their report with the financial statements of the charity for the year ended 31st March 2024. The trustees have adopted the provisions of Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice applicable to charities preparing their accounts in accordance with the Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland (FRS 102) (effective 1 January 2019).

STRUCTURE, GOVERNANCE AND MANAGEMENT

Governing document

The charity is controlled by its governing document, a deed of trust, and constitutes a limited company, limited by guarantee, as defined by the Companies Act 2006.

